YR YMOFYNYDD.

RHIF. 77.] MAI, 1865. [AIL GYFRES.

DAEAREG.

(*Parhad o tudal.* 84.)

YN yr hyn a elwir *Silurian System* mae haenau o galchfeini i'w canfod yn fwy aml nag oeddynt yn y ffurfiadau blaenorol, gymaint felly fel y ceir yr haenau cleiog a ffurfiadau calchog yn fân resi cymharol deneu un ar ben y llall; yr hyn a arddengys gyfnewidiadau ansoddol mwy mynych ar y wyneb nag a gymerai le o'r blaen; eu bod lai dan ddylanwad gwres ac yn nawseiddiach; nodweddion mwy cymwys tuag at gynaliaeth y bodau ag oeddent cyn hir i dderbyn eu lluniaeth oddiarnynt.

Gan fod yr oll a wyddom am fodau a llysiau y cynoesoedd hyn yn ymddibynu ar gadwraeth gweddillion y cyfryw mewn sefyllfa garregawl, nid ellir dysgwyl cael engraifft o bob llysieuyn a bywydyn a fodolai'r prydiau hyny; pe byddai'r ymchwiliad am danynt wedi bod yn fanol a helaeth yn mhob man lle maent, yr hyn ni fu a'r hyn nid all fod ychwaith; oblegid yn a thrwy ronynau creigiau y gorweddant, a ffurfiant yn awr ran o honynt; ac nid oes mewn cymhariaeth ond mân dyllau yma ac acw wedi cael eu hagor i'r creigiau hyn; cyffelyb i pe gwnelid twll yma a thraw a hoel yn y *plastering* yna i chwilio am y blew a gynwysa.

Cafwyd er hyny yn y calchfeini iselaf o'r rhai a soniasom fod yn perthyn i'r *Silurian System*, weddillion, math o fôr-lysiau a elwir *fucoid:* ac yn yr haenau dilynol o galchfeini greadigaeth fywydol tanforawl, yn dechreu yn chwanegol at y llysieuol; y cyntaf felly yw bywyd llysieuol, wedi cael eu gosod fel i dreio'r hinsawdd; ac wedi hyny yr cyfansoddol, yn y milyn bychan hwnw a elwir *coral insect*, yr hwn a ddaw i'n sylw ymhen tipyn eto; a math o dwrchyn bychan, a gallu ynddo i dwrio i mewn i ddefnyddiau llaith; nodir hefyd filyn bychan, glynedig wrth gorsen ystwyth a dyfai ar waelodion y moroedd; creaduriaid aflunaidd oeddynt y rhai hyn, ymddengys nad oedd iddynt ond math o grafangau i afaelu mewn lluniaeth, ac un tynewyn i'w ollwng i lawr drwy y corph; perthynant i'r fath o greaduriaid a adnabyddid fel yn bodoli mewn tymhor diweddarach, ac a elwid *police* y môr, pa rai nid yn unig a ymaflant yn y bodau cythryblus o'u hamgylch, ond a'u bwytânt hwynt; arddengys hyn fod mathau eraill o filod yn bodoli er rhoddi cynaliaeth i'r *police* yma; ac y mae cannoedd o rywogaethau wedi cael eu dadguddio cyn dyfod at derfyn uchaf y *Silurian system.* Mae arddangosiad o sychdir idd ei ganfod yn rhanau uchaf y ffurfiadau hyn mewn gweddillion llysiau priodol i dir sych; ond dim olion un math o greadur perthynol i sychdir.

Prif nodweddion crwstyn y ddaear yn y cyfnodau hyn a ddynodir yn dra amlwg gan wahaniaeth yn yr haenau ffurfiedig: dengys y clailechi fod y defnydd cleiog a'i perodd wedi bod dan wasgiad gan ddwfr o ddyfnder mawr iawn, ond llonydd; y tywodou a wnant i fynu y glasgwar *(grauwacke)*, a arddangosant ar y llaw arall effeithiau dwfr rhedegog; a chalchfeini'r ffurfiadau siluraidd, lafur hir barhaus y miloedd bychain y soniasom eisioes am danynt, sef y *coral insects* yn adeiladu y creigiau o ychydig i ychydig, nes bod rhai cannoedd o droedfeddi o uchder. Dr. Buckland a gasgla oddiwrth rywogaethau a ffurf y creaduriaid morawl a fodolent; y llysiau a dyfent, ac ymddangosiadau eraill yng nghwerydd y cyfnodau hyn fod yr awyr, y goleuni a'r moroedd o ansoddau cyffelyb i'r hyn ydynt yn bresenol; yr oedd llygaid gan y creaduriaid a fodolent, gan hyny rhaid fod goleuni, onide ni fuasai llygaid o un pwrpas; a rhaid hefyd fod awyr gyffelyb, oblegid efe yw cyfrwng goleuni i'r llygad, ac allan o hono i beri gweledlad; ac fod y moroedd yn ansoddol gyffelyb a brofir gan fodoliaeth rhai creaduriaid y pryd hwnw, yn neillduol y *coral insect*, cyffelyb i rai o driganyddion y moroedd ar hyn o bryd.

Y ffurfiadau hyn sydd gyfoethog o rai mathau o fwnau gwerthfawr yn y clai-lechi: ceir gwythi ffurfiedig mewn agenau unionsyth, ac ar ledtraws, o blwm, *copper*, arian, ac ychydig aur.

Ceir yr holl haenau ydym hyd yma wedi sylwi arnynt oll yng Ngogledd Cymru; a thrwch y cwbl oddiar war y *granite* i wyneb y *Silurian System* sydd yn agos i ddwy filltir unionsyth o uchder.

Tebyg yw fod yr enw *Silurian System* wedi cael ei roddi i ran uchaf y ffurfiadau hyn am eu bod yn croesi Cymru, oblegid hen enw ar Gymru ydyw *Siluria;* beth bynag dyma derfyn uchaf yr hyn a elwir y cyfnod cyntaf.

Deuwn yn awr at yr hyn a eilw Daearegwyr, yn ail gyfnod, yr hon a gynwysa'r hen dywodfaen goch, calchfaen y mynydd, y caeau glo, &c.

Y ffurfiad henaf o'r rhai hyn yw yr hen dywodfaen goch; yr hon a ddechreuai ymffurfio yng ngeubyllau, ac yna ar glogwyni gwaelodion tonnog y moroedd, fel ei gadewid gan natur ar ddiwedd y cyfnod cyntaf.

Gelwir hon yn Hendywodfaen er mwyn ei neillduoli oddiwrth dywodfaen arall gyffelyb a elwir y dywodfaen goch newydd, yr hon sydd ar war y glo, tra mae'r hen dywodfaen goch ymhell dano; ceir hon yn croesi deheubarth Cymru ar draws Brycheiniog, ac oddiyno i Hereford a'r Amwythig, tuag Worcester; ceir yr hen dywodfaen goch a'r dywodfaen goch newydd yn croesi Devonshire; ac o herwydd hyny gelwir y rhes o un i'r llall gan rai daearegwyr yn *Devonian System*, mae'r glo a chalchfaen y mynydd yn eisiau yno.

Yr ydym wedi cael golwg yn barod ar gynyrch treiliadau'r creigydd cyntefig; trosglwyddiad y defnyddiau treiliedig; eu crynhofa i weleuau o wahanol fathau o gwerydd, cyfandrwch pa rai sydd yn fwy nag eiddo'r ail gyfnod; mae ffurfiadau yr ail gyfnod, gyda bod yn deneuach, yn llai cyffredinol dros wyneb y ddaear nag ydyw eiddo y cyfnod cyntaf; yr achos o hyn debygid yw, fod ffurfiadau y cyfnod cyntaf yn effaith deddfau ar waith, a rhai o honynt dros wyneb yr holl ddaear, a'r lleill dros gyfran helaeth o honi; pan nad yw yr olaf ond effaith achosion lleol ar y rhanau hyny o'r creigiau cyntefig oeddynt yn agored i ddadlithiad yr awyr, ac achosion lleol

eraill; ond er bod o lai trwch ar y cwbl mae gweleuau'r ail gyfnod yn fwy amrywiaethog; mwy o rif o honynt, ac o ansawdd mwy cymwys ar y cwbl i fodoliaeth a chynaliaeth creaduriaid cyfansawdd; ac yn tebygu fwy fwy tuag i fynu i weithrediad prydhynol elfenau natur ar y byd; ond yn y ffurfiad cyntaf o'r ail gyfnod, sef yr hen dywodfaen goch, ymddengys fod natur fel pe wedi llwfrhau yn hytrach na dyrchafu yn ei gweithrediad gyda golwg ar ei chynwysiad tyfawl, o lysiau a chreaduriaid; oblegid mae lleihad amlwg i'w ganfod yn y cwerydd hyn, yng ngweddillion creaduriaid cyfansawdd; a'r ychydig dyfiant llysieuol y mae olion o hono i gael yn rhanau uchaf y cyfnod cyntaf sydd yma wedi ymron myned ar goll; yr achos o hyn debygid oedd fod llosgnwyau crombil y ddaear yn ol cael eu cyfyngu am dymor gan galedwch y wyneb, wedi ymchwyddo i fynu eto a pheri cythrwfl lled gyffredinol, gan amhuro awyr gwyneb y byd, a'i anghymwyso i gynal tyfiant; ac wrth ymryddhau cyflawnder o ddefnyddiau haiarnaidd, a'u gwasgaru drwy'r moroedd, beri i'r dyfroedd fod yn llai cymwys i gynal bywyd. Y cyfryw fân lwch haiarnaidd a rydd i'r ffurfiad hwn y lliw neillduol a achosodd i'r enw, y dywodfaen goch gael ei roddi iddo. Trwch unionsyth y ffurfiad hwn sydd mewn manau yn oddeutu dri chwarter milltir, cynwysedig o amrywiol haenau; rhai o honynt yn fân eu *grit*, caled a holltadwy; rhai yn arw, ac ychydig o galchfeini amhur. Mae ol tonnau y môr idd ei weled yn eglur ar rai o honynt, cyffelyb i'r hyn a welir ar lanau'r môr y dyddiau hyn wedi enciliad y dyfroedd yn eu hol yn amser y trai.

Nid oes profion sicr fod llysiau priodol i dir sych yn bodoli yn hwn; ond mae ychydig o weddillion rhai morawl ar gael ynddo; na lle i ddychymygu fod creaduriaid priodol i sychdir yn gynwysedig ynddo; morawl oedd yr oll o honynt; ac allan o'r wyth cant o rywogaethau sydd ar gael yn y *Silurian System*, nid oes yma ond oddeutu gant; i wrthbwyso hyn mae rhai o drigianyddion y moroedd y prydiau hyny lawer yn fwy; a chyfansoddiad yr oll ychydig yn fwy perffaith; a rhai rhywogaethau idd eu cael yma nad ymddangosodd o'r blaen yn y byd. Cafwyd naw math o forgwn *(sharks)* ynddo, ac ychydig bysg lled fawr yma ac acw i'w canfod; rhai o honynt tuag un-ar-bymtheg-ar-ugain o droedfeddi o hyd.

Ar ben yr hen dywodfaen goch ceir y cwerydd calch a elwir calchfaen y mynydd, sef cerrig calch Penderyn a'r Castell-coch.

Efallai nad oes un ffaith mewn daeareg mor anawdd ei chwmpasu yn y meddwl, a ffurfio dychymyg am y dull ei cyfausoddwyd ag ydyw calchfaen y mynydd; ceir tuag wyth cant o latheni unionsyth o drwch o hono, ac y mae'n gyfansoddedig ymron yn gyfangwbl o un crynswth o weddillion creaduriaid byw; mae'r holl weddillion hyn, bid sicr, yn foreuol; y *coral insects*, prif adeiladyddion y calchfeini, sydd i'w cael yma yn fwy o faintioldeb, ac eu ffurfiad yn llawer perffeithiach nag eiddo unrhyw adeg flaenorol: llawer o honynt yn feddiannol ar allu i fudo o un man i'r llall yn ol eu hewyllys; ac yn hyn o allu yn anhebyg i'r fath hyn o greaduriaid a'u blaenorent nac a'u dilynent.

Dywed Dr. Buckland, wedi nodi allan amrywiol fathau o fân greaduriaid, cynwysedig yng nghalchfaen y mynydd, fod defnydd y cwar hwn mor gyfoethog o weddillion creaduriaid byw ag ydyw deisi llafur o wellt. Yr un awdwr a fanwl ddarlunia fath o greaduriaid perthynol i'r galchfaen hon, yr

hwn a eilw efe Apiocrinites Rotundus; yr enw a ddynoda fod cymalau y creadur, o ba rai mae iddo ganoedd o honynt yn gyffelyb i droellau (*wheels*). Dywed y Dr. fod ymhob cymal ddarpariad a alluogai'r creadur i anadlu drwyddo; fod y cymalau hyn wedi cael eu gosod ynghyd yn rhes gref ac ystwyth o'r gwadn i fynu, gan ffurfio math o asgwrn cefn ar hyd yr holl gorph amrai droedfeddi o hyd; fod pob adran, o gymal i gymal, yn fath o beiriant anadlu ynddo ei hun; ac fod cysylltiad cyffredinol perffaith rhwng y gwahanol adranau hyn a wnaent i fynu gyfangorph o droellau bywydol; ac fod cyfansoddiad y cwbl mor gyfaddasedig y naill i'r llall yn y modd mwyaf cywrain, cyfatebol i gydweithrediad yr oll; fel y byddai dychymygu fod gwahanol droellau *(wheels) clock* wedi ymffurfio, llifo dannedd iddynt eu hunain, a chwympo at eu gilydd i'r drefn y maent heb un *clock-maker* yn llai gwrthun na fod y creadur hwn wedi bodoli fel y ceir ef, heb fod yn greadigaeth Bod Doeth, a ragwelai ac a gyfaddasai'r cwbl i ddyben neilldnol. Er fod calchfaen y mynydd yn ffurfiad morawl, eto mae ychydig lysiau perthynol i sychdir i'w cael ynddo, trosglwyddedig iddo debygid gyda dyfroedd croew.

Yr ydym yn dyfod ar ein taith eto heibio gymydogaeth cartref, sef at y caeau glo yna. Dan yr enw hwn cawn amrai resi o wahanol haenau o lo, *fireclay*, cwar, mwn haiarn, *clifft*, &c., oll ar war calchfaen y mynydd, ac un ar ben y llall yn anghyson ddilyn eu gilydd.

Yn gyffredin ceir y gwythi isaf o lo yn hytrach yn deneu mewn cyferbyniaeth i'r rhai a geir tua'r canol; tra mae'r mwn haiarn yn nes at eu gilydd, yn dewach a gwerthfawrocach o'r gwaelod i fynu hyd gymydogaeth y canol, ac yna yn anamlach a theneuach.

Oddeutu'r canol mae'r glo dewaf, ac oddiyno i fynu y gwythi eto yn teneuo; a thua'r rhanau uchaf y tir rhyngddynt i'w gael yn dew a chaletach nag ydyw yn rhanau iselaf a chanolog y caeau glo; cwerydd o drwch mawr, ac ambell wythien deneu o lo i'w cael tua'r wyneb, nes cyrhaedd y ffurfiad nesaf ar eu gwar, sef y Dywodfaen goch newydd. Ceir yn gyffredin yr haenau glo yn y caeau mawr, a ffurfiad cyson a dilynol, yn fawr neu fân wythi amrai filltiroedd o arwynebedd; rhai o honynt, er bod wrth bob tebyg wedi cael eu golchi ymaith o'r cymydd a geir y ddwy ochr iddynt gyferbyn, neu yn agos gyferbyn a'u gilydd, yn haenau cyson ar bob llaw; yr hyn a ddengys fod eu ffurfiad cyntefig yn groes i'r prydhynol gymydd o un ochr i'r llall. I brofi hyn ymhellach ceir y gwythi dan waelodion y cymydd hyny yn haenau didor o un ochr dan y cyfryw gymydd i'r ochr arall; hyny yw, lle nad oes *faults*, pa rai a gymerasant le yn ddiamheuol wedi ffurfiad y cyfryw wythi gan dorri y cwbl ar draws ac ar hyd; eu codi fynu a'u gollwng i lawr mewn rhai manau i'w gwastadrwydd cyntefig, a manau eraill a'r holl wythi, cwerydd, &c., un ochr i *fault* ugeiniau o latheni yn uwch neu yn is nag oeddynt cyn i'r *faults* hyn gymeryd lle.

Cawn fyned ymlaen heb sylwi ar y gwahanol fathau o lo a fodola—at y tybiedig achos o hono.

Tra mae'n eglur taw gweddillion llysieuog yw glo, yn herwydd yr unrywiaeth ansoddol sydd rhyngddo a llysiau, fel y cynygwyd dangos o'r blaen; eto nid mor hawdd penderfynu, pa fodd, a than ba fath amgylchiadau ei cynyrchwyd yn y manau mae ef yn awr i'w gael.

A dyfodd y llysiau neu'r coedydd a wnant i fynu y glo, yn y llefydd mae

glo ar hyn o bryd yn gorphwys? Os na ddo; pa fodd y daeth y fath grynhofa doreithiog o ddefnyddiau llysieuog at eu gilydd i'w beri?

Paham y ceir gwythi glo a chymaint o *gliffi* neu o gwar rhyngddynt; ac eto fod cynifer gwythien o lo i'w cael mewn un cae glo un uwchlaw y llall? A phan sylwom ar y gwahanol weddillion llysieuog sydd i'w canfod yng nghymydogaeth y glo: llawer o honynt o fath, ac eraill o faintioli eiddo presenol hinsawdd boethlyd y byd, mae'n naturiol i ymholi pa fath hinsawdd a fodolai ar amser ei ffurfiad yn y gwahanol wledydd lle mae glo i'w gael?

O'r amrywiol dybiadau mae naturiaethwyr wedi eu rhoddi ar y peth, caf enwi dwy; un sydd gasgliad oddiwrth yr hyn sydd beunydd yn cymeryd lle ar arllwysiad afonydd mawrion i wastadedd, sef i lynodd mawrion fel y St. Lawrence a'i llynoedd yn America; pa afonydd a drosglwyddant yn neillduol ar lifogydd a thymhestloedd beth dirfawr o lysiau a choedydd, clai, tywod, &c., casgledig am gannoedd neu filoedd o filltiroedd o ffordd ar hyd eu glenydd eu hunain; a'r gwahanol afonydd eraill a ymarllwysant iddynt; y cyfryw lysiau a choedydd a ymsuddai mewn sefyllfa llaith; a thebyg yw y ffurfiant weleuau ar eu gilydd yn y gwaelodion yn ol eu pwysau; ac fel y byddai'r dyfroedd yn ymlonyddu fod y llaid a'r mân dywod fyddai'n hongian yn y dyfroedd pan yn gythryblys a llwyd, am feallai gannoedd o latheni o ddyfnder; yn suddo hefyd i'r gwaelodion fel y byddai'r llynoedd yn ymloewi, i ffurfio haen o glai, mwd, neu fân dywod, gan ffurfio felly haen ar ol haen o gyffelyb a gwahanol ddefnyddiau, un ar ben y llall yn ol eu pwysau a'u hattyniad, nes mewn hir oesoedd lanw i fynu'r llynoedd yr ymffurfient ynddynt, a'r dyfroedd yn y canlyniad naill ai gymeryd cyfeiriad arall, neu dreilio ffyrdd iddynt eu hunain drwyddynt, a gadael ran helaeth o'u casgliadau iddynt yn gof-adeiliau mawreddog o'r llafur am oesoedd; ac yn ffynonellau buddiant a chysur i ddynolryw mewn amser maith yn ol llaw; dyna un dybiaeth yn ol pa un y casglir fod gweleuau glo wedi cael eu bodoliaeth.

Tybiaeth arall a ddarlunir fel y canlyn, sef—Fod defnyddiau llysieuog a choedydd, yn ol tyfu blwyddyn ar ol blwyddyn, ac oes ar ol oes mewn pentydd, ac o ddiffyg hidliad digonol a pharhaus dyfroedd oddiwrthynt, ddyfod yn llaith, haner pwdr a mawnog; fod chwyldroadau wedi cymeryd lle yng ngweithrediad natur, rhyw fodd neu gilydd, a berai i'r mawn gael ei ordoi gan laid, clai, neu dywod; yna ail dyfiant, a chyffelyb ordoad yn amrai haenau ar eu gilydd, nes llanw'r pentydd i fynu; ac i'r ffurfiadau hyn wedi cael eu hamddifadu o effaith awyr y wyneb arnynt; yr ymwasgiad cyffredinol a gymerai'n naturiol le, ynghyd â dylanwad fferyllawl y gwahanol wlybyroedd a nwyau a gynwysant iddynt mewn oesoedd maith, galedu a ffurfio yr hyn a elwir yn awr yn gaeau glo.

Ac ymhellach, gan fod caeau glo i'w cael ymhob hinsawdd; yn y poeth fel sydd yn Asia; y cymhedrol fel sydd ym Mrydain; a'r oerllyd fel sydd yn *Melville Island*, ac ym mhob un o'r gwledydd hyn y caeau glo yn cynnwys cyffelyb weddillion tyfawl, sef gweddilliou llysiau priodol i bresenol hinsawdd boethlyd y byd; eiddo *Melville Island*, lle nad yw'r haul yn codi i'r golwg am un tri mis o'r flwyddyn, yn cynwys cyffelyb weddillion llysieuog i'r lleill; ac fod llawer o brofion i'w cael fod pegynau'r ddaear yn gyffelyb eu perthynas a'r haul yn oesoedd boreuol y byd a'r hyn ydynt yn bresenol ym mhob ystyr; y casgliad naturiol a wneir yw, fod cnwd

toreithiog y ddaear ar y prydiau y ffurfiwyd y glo, pa fodd bynag y casglwyd neu'r ymgasglodd y defnyddiau at eu gilydd i'w peri, idd ei briodoli i wres tra eithafol gwyneb y ddaear ar y prydiau hyny, deilliedig oddiwrth sefyllfa dawddedig a phoeth y rhan fewnol o honi; ac fod caledwch y wyneb yn gwar, *clifft*, *fire-clay*, a glo i'w briodoli i rhyw fesur i'r un achos: ac hefyd i wasgiad y defnyddiau ar eu gilydd, ac efallai y dyfroedd ar eu penau.

Wedi crybwyll fel hyn yn fyr rhai o olygiadau daearegwyr ar y pwngc gadawn yr ystyriaethau o achos y ffurfiadau hyn, ynghyd a'r tybiedig amgylchiadau o dan ba rai eu cynnyrchwyd i'ch sylw, a'ch myfyrdodau yn ol llaw. Ond pa beth bynag a feddyliom am yr achos o honynt, yr ydym yn cael fod yn Lloegr a Chymru yn unig triarddeg neu bedwararddeg o gaeau glo gweithadwy, pob un o honynt yn amrai filltiroedd o arwynebedd; ac yn eu plith Gafn mawr Deheubarth Cymru yn rhyw 800 neu fil o filltiroedd o arwynebedd, yr hwn a gynwysa tua degarugain o wythi glo dwy a haner o droedfeddi o drwch ac uchod, cyfartal i lathen yr un; ac amrywiol wythi llai o wahanol drychau (rhai o honynt yn weithadwy ynglyn â mwn haiarn ar bris caffaeladwy am lo yn awr), ac yn gorwedd un ar ben y llall yn mharthau canolog neu ddyfnaf o hono; y cwbl o'r ffurfiad neu ffurfiadau hyn yn lo, *clifft*, cwar, mwn haiarn, &c., rhwng tri chwarter milltir union-syth o drwch.

Gyda chyffelyb deimlad i'r hyn a lywodraethodd Robinson Crusoe pan ganfu ol troed dyn ar y tywod yn ei unigedd, ar Ynys Juan Fernandez, y canfu Dr. King yn 1844, ol troed creadur pump bys, (ond nid dyn cofiwch) ar lafnau o gwar perthynol i un o gaeau glo America; ac wedi peth ymchwiliad canfyddodd dri-ar-ugain o'r cyfryw olion; sylwodd fod yr olion hyn yn beiri, y blaenaf yn y *pair* yn llai na'r olaf, ac yn agos i'w gilydd, a'r pellder rhwng pob *pair* yn gyson, ac yn cyfateb i'r hyn wnelai creadur pedair troediog a fyddai o dair i bedair troedfedd o hyd wrth gerdded; yr olion hyn oeddynt gyffelyb i'r hyn wnelai budr-chwilen o'r cyfryw faintioli pan yn cerdded ar ddefnydd llaith. Fod y creadur a berodd yr argraph hwn yn briodol i sychdir: ac fod yr argraph wedi cael ei wneuthur ar dir llaith na fyddai'n orchuddedig gan ddwfr oedd i'r Dr. yn eglur; profedig oddiwrth ffurf a dyfnder yr argraph, ac i brofi hyn ymhellach, yr oedd agenau groes yngroes ar wyneb y cyfryw gwar a arddangosant effaith gwrês yr haul ar ddefnydd llaith i'w peri. Dyma'r darganfyddiad cyntaf a wyddys am dano a dybid yn profi fod creadigaeth creaduriaid priodol i sychdir wedi dechreu; ac fel i gadarnhau'r dybiaeth hon ymhellach cawd yn yr un flwyddyn gorph esgyrnog (mewn sefyllfa garregawl) math o chwilen yn un o fesurau glo Rhenish Bavaria. Yn 1847 dadguddiwyd gweddillion tri chreadur yn y tir glo gerllaw pentref Lebach, rhwng Strasburg a Treves yn Prussia, perthynai'r rhai hyn o ran rhywogaeth i'r *crocodile* creaduriaid dau rywiog oeddynt, cyffelyb yn hyny o beth i'r dyrgi; ac yn 1849, canfyddwyd ol cerddediad creadur mawr o rywogaeth y *crocodile* yn rhanau isaf cae glo Pittsville yn Philadelphia, America, a chyn belled ag y mae'r dadguddiadau hyn i amddibynu arnynt, dyma driganyddion boreuaf sych-diroedd y ddaear; neu efallai y byddai'n gywirach dywedyd mai cyfnod ffurfiad y glo a'r haenau cyfagos, oedd yn ol y dadguddiadau sydd hyd yma wedi cael eu gwneuthur, y pryd yr ymddangosodd creadur byw a anadlai awyr agored ar wyneb ein byd gyntaf; caf yn awr ymadael a'r caeau glo yn eu terfyn uchaf,

gan sylwi fod glo yn eael ei weithio yn *Ffraingc*, *Spain*, *Germany*, *Sweden*, *Russia*, *Hindostan*, *Australia*, *New Zealand*, *China*, *Persia*, *Turkey*, *Nova Scotia*, *Cape Breton*, *Chili*, ac amrywiol barthau eraill o'r byd gydag yn y llefydd a grybwyllwyd yn barod; ac fod yn yr holl lefydd lle mae toraeth o lo i'w gael hefyd gyflawnder o fwn haiarn a chalchfeini; ymddengys felly fod Creawdwr Doeth y cyfan wedi gosod yn gyfagos i'w gilydd brif ddefnyddiau mwyaf pwrpasol y greadigaeth, tuag at i ddyn gael cyfleustra i ffurfio iddo ei hun, ac at ei wasanaeth offerynau celfyddydawl, a masnachol. Hebddynt nid bawdd fuasai trin a gwrteithio gwyneb y ddaear, i roddi lluniaeth i ddyn ac anifail; drwy eu hofferyngarwch chwilir i'w dyfnderoedd; y dygir ei thrysorau i'r wyneb, y trosglwyddir hwynt yma ac acw lle byddo gofyn am danynt. Hebddynt ni fuasai llong ar fôr cyffelyb i sydd yn awr; drwy eu gwasanaeth ceir meirch tân yn carlamu ar hyd haiarn ffyrdd dyffrynoedd gwahanol wledydd y byd: a'r gwefryn bychan ymhob cyfeiriad a'i gefn heuarnaidd yn barod i gludo negeseuau o derfyngylch i derfyngylch, nid yn unig ar gorn y gwynt fel yr arferwyd dychymygu; ond gyda buandra'r fellten mewn gwirionedd.

Dinas, Chwef. 28, 1865. J. E.

GOGONIANT I DDUW.

Ddarllenwyr yn llonwych os chwenych wnewch chwi,
Cewch weled yn ufudd gân newydd gen i;
Mi gana'n ddigwmwl fy meddwl yn llwyr,
Ac os wyf gamsyniol Nhad nefol a ŵyr.

Tylodion, breninoedd, a lluoedd y llawr,
Pob dyn a phob dynes mewn hanes sy'nawr,
Y dyall, y golwg, y teimlad a'r clyw,
Yn gyson dangosant ogoniant un Duw.

A'r holl anifeiliaid wy'n weled yn wir,
Cynhaliaeth eu bywyd, rhai diwyd ar dir,
Ymlysgiaid, ehediaid cyn fwyned cânt fyw,
A'r pysg yn yr eigion gânt ddigon gan Dduw.

Y stormydd a'r cŏedydd, boreuddydd a hwyr,
A gwelwyd yn fynych eu llewyrch yn llwyr;
Tymhorau, blynyddau, a ninau'n cael byw,
Mor gyson dangosant ogoniant Un Duw.

Rhew oeraidd ac eira, gwlaw hindda a thes,
Y blodau a ffrwythau, mân lysiau mawr les;
A rhai'n yn llawn rhinwedd a rhyfedd bob rhyw,
Sy'n dangos yn bendant ogoniant Un Duw.

Mae'r corsydd a'r creigydd, afonydd y byd,
Y sychdir a'r llaithdir, a'r llafur bob pryd,
A'r holl greadigaeth mor helaeth, gwir yw,
Yn dangos yn bendant ogoniant Un Duw.

Dyrchafwn ein golwg yn ddiddrwg i'r byd,
I ddarllen gwaith natur a'r 'sgrythyr ynghyd;

Oes rhyw beth all symud am fynyd yn fyw
Heb ddangos yn bendant ogoniant Un Duw?

Mor isel bu'r Iesu yn tramwy trwy'r wlad,
Rhoi golwg i'r deillion yn rhwyddlon a rhad;
Dug Lazarus er syndod o'i feddrod yn fyw,
Er dangos yn bendant ogoniant Un Duw.

Rhown ddau dro i edrych—Oes gwrthrych i'w gael
All rhyw ddyn â'i lygaid ei weled mor wael
Na thystia'n ddiseibiant ogoniant Un Duw?
Os oes, mewn careiddiwch mynwch betb yw.

DANIEL GLOFF.

EFENGYL ESGOB RHYDYCHAIN

YN y flwyddyn 1850, pregethodd Esgob Rhydychain ar y pwngc o gospedigaeth yn uffern. Yr oedd yn pregethu yn fwyaf neillduol i blant y rhai oeddynt y dydd hwnw wedi eu conffirmio ganddo. Clywsom ei fod yn desgrifio y gwahanol ddosparthiadau o bersonau y rhai a gânt eu dedfrydu i drueni tragwyddol; ac yr oedd yn ceisio ei rybuddion yn benaf oddiwrth y rhai hyny ag y mae'r byd yn cael ei dueddu i edrych yn ffafriol arnynt. Ar ol desgrifio marwolaeth yr anedifeiriol o wahanol ddosparthiadau, oll yn gyffelyb yn diweddu gydâ'r ddedfryd o drueni tragwyddol, aeth yr Esgob rhag ei flaen i roddi darlun o *fereh yn yr ysgol*, yn cael ei thori i lawr tua thair neu bedair ar ddeg oed. "Yn ei bywyd byr nid yn anfynych yr oedd wedi llercian ar hyd yr heol yn lle myned i'r ysgol, yr oedd wedi dywedyd rhai celwyddau, wedi bod yn wrthnysig ac yn anufudd. Yn awr cafodd roddi ffarwel i nefoedd ac i obaith, i'w rhieni, i'w brodyr a'i chwiorydd. Pa beth oedd ei gloes o ofid na chawsai byth etto edrych ar eu gwynebau, byth clywed eu lleisiau tra-adnabyddus! . . . O hyn allan rhaid iddi drigo ym mhlith bodau nad oes arnynt ddim attaliad na rhwystr. Y mae'r gwaethaf o ddynion yno, â phob gwreichionyn o deimlad dynol wedi diffodd, heb un gyfraith i gymmedroli ffyrnigrwydd eu cynddaredd diobaith."

Y mae rhagor i'r un perwyl. Ond y mae hyna yn ddigon i alluogi'r darllenydd i weled pa fodd y gall Esgob o Eglwys Loegr, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg bregethu i blant.

T. R.

MANTEISION GWEDDI.

"Gweddiwch yn ddibaid."

Y FATH yw ein hymddibyniad ar Dduw fel y dylem nid yn unig wneyd ei ewyllys, ond ni a ddylem ddymuno gwybod pa fodd y gallwn ei foddio. Pa ddedwyddwch annhraethol yw fod caniatad i ni i neshau at ein Creawdwr mewn hyder, agor ein calonau iddo, a dal cymmundeb agos ag Ef trwy weddi? Mae yn ein gwahodd i weddio. "Oni fydd iddo," gofyna St. Cyprian, "ganiatau i ni y bendithion hyny y gorchymyna ni i ofyn am danynt?" Boed i ni gan hyny weddio mewn ffydd. Dedwydd yw'r enaid a fendithir yn ei weddiau â phresenoldeb Duw. "A oes neb yn eich

plith mewn adfyd" medd St. Iago, "gweddied:" och! mynych y meddyliwn ni fod y gwaith nefol hwn yn flinderus. Llwfrdra ein gweddiau yw ffynnonell pob anffyddlondeb arall o'r eiddom.

Gofynwch, a rhoddir i chwi; curwch ac fe agorir i chwi; ceisiwch a chwi a gewch. Pe na fyddai raid i ni ond gofyn am olud er ei gael, pa awydd, pa daerineb, pa ddyfal barhad y gwnaem ei amlygu. Pe gallem gael trysor ond ceisio am dano, ni a symudem fynyddau er ei fwyn. Pe gallem trwy guro gael myned i mewn i gynghor brenhinoedd, neu ryw uchel swydd, fel y gwnaem ddyblu ein hergydion er peri ein clywed. Beth nad ydym ewyllysgar i'w wneyd er mwyn anrhydedd gau; pa omeddiadau, pa groesau na ddyoddefem er mwyn y ddrychiolaeth o ogoniant bydol! Pa boenau na chymerem er mwyn pleserau gwaelion na adawant ond adgno yn eu llwybr!

Y trysor o ffafr Duw yw yr unig un nas gallwn ymostwng i ofyn am dano, yr unig un y digalonir ni rhag ei geisio. Ac eto i sicrhau hwn, ni raid i ni ond gofyn am dano; oblegyd y mae gair yr Iesu yn wir; ein hymddygiad ni sydd yn anffyddlawn. Archesgob Fenelon.

PEIDIWCH MYN'D I DDYLED.

'Roedd Dr. Johnson yn maentumio mai dyled boreuol sydd ddistryw. Ei eiriau ar y pwnc ydynt bwysig a theilwng o'u cadw mewn cof. "Na fydded i chwi un amser meddai ystyried dyled dim ond ychydig o anghyfleistra, oherwydd chwi a'i teimlwch yn drallod. Mae tylodi yn gwanhau y galluoedd i wneud daioni, ag yn ymchwanegu analluogrwydd i wrthsefyll drwg yn dymorol a naturiol, a'i fod trwy bob modd rhinweddol i gael ei ochelyd. Bydded eich ymgais penaf ynteu i fod yn ddiddyled. Penderfynwch beidio bod yn dlawd, pa faint bynnag fo genych gwariwch lai. Mae tylodi yn elyn mawr i ddedwyddwch, ag yn ddistryw sicr i ryddid, a gwna rai rhinweddau yn ammhossibl, ag ereill yn hollol anodd. Nid sail i lonyddwch yn unig ydyw cynildeb ond mae felly i haelfrydedd hefyd; nid all undyn gynnorthwyo ereill ag fo mewn eisieu cymmorth ei hun."

NEFOEDD AC UFFERN.

Beth ydynt, a pha le y maent?

"Oblegid ein Duw ni sy dân ysol: Heb. xii. 29.——"Oblegid Duw Cariad yw: 1 Ioan iv. 6.

"We cannot go
Where universal love smiles not around,
Sustaining all yon orbs, and all their suns;
From seeming evil still educing good,
In infinite progression."—*Thomson.*

Gofyniad sydd yn codi yn naturiol o bryd i bryd ym meddwl pob dyn doeth ac ystyriol, dybygwn, yw, Pa beth fydd ar ol marw? A bydd dedwyddwch dyn yn ymddibynu i raddau helaeth ar yr atteb y bydd yn alluog i roddi i'r gofyniad hwn. A fydd bywyd wedi'r bedd?—os bydd, pa

fath fydd ?—ai dedwydd ynte annedwydd ? Ai'r un peth fydd i bawb ? Ar ba beth fydd dedwyddwch neu annedwyddwch dyn yn ymddibynu ? A fydd dau ddosparth ? os bydd, a fyddant yn parhau felly byth ? neu os un fydd, a fydd y drwg a'r da yn gyffelyb yn ddedwydd neu yn annedwydd ? Ai gwir y caiff y drwg ei gospi byth ? Onid gwir y bydd dyn yn cael derbyn o ffrwyth ei weithredoedd ? beth fydd ffrwyth gweithredoedd drwg ? Onid yw drwg i ddwyn ei gosp ar ei ol ? Oni chaiff y drwg ddioddef am ei ddrygioni ? I bwy y bydd poen ac ing, trueni a blinder ?—ai i neb ?—ai i'r da, ynte i'r drwg ? Ai'r un gosp fydd i bawb ? A oes graddau mewn pechod ?—a fydd graddau yn y gosp ? Ai yn ol y pechod y bydd y gosp ? A oes dim graddau mewn annuwioldeb ? A fydd y plentyn bach am anufudd-dod i'w rieni, yn dioddef yr un gosp a'r lleidr neu'r mwrddwr ? Ar ba beth y mae pechadrusrwydd gweithred yn ymddibynu ? A ydyw pawb o bob oedran a gradd a fyddont yn troseddu, yn gyffelyb yn droseddwyr,—yn agored i gosp, ac i gyffelyb gosp ? Ai byth y cospir yr annuwiol ? a gospir pob annuwiol â chyffelyb gosp—byth ? Oni fydd y gosp yn gyfartal i'r trosedd ? Onid yw Duw yn dân ysol ?—ydyw ; Duw, Cariad yw ! Pechodd Adda, ac yn Adda fe bechodd ei holl blant. Yr oedd Adda yn ben-cynnrychiolwr i'w holl had, ac fe bechodd ei holl blant ynddo ef, ac y maent o herwydd hyny yn agored i ddamnedigaeth dragwyddol." A ydym ni yn euog o bechu cyn ein geni ? A gawn ni ein cospi byth ac yn dragywydd am weithred a gyflawnwyd filoedd o flynyddau cyn ein bod ni yn alluog i weithredu dim ? Ai gwir fod plant maint llaw dyn yn uffern ? Y mae dyn yn ddiammheu yn wan ac yn ffaeledig, yn anufudd a chyndyn, yn rhy fynych yn troseddu. A gaiff plentyn bach, am nad yw wedi ei fedyddio, ei boeni byth yn y tân mawr ? Neu ynte a gaiff y plentyn deng mlwydd am bechodau deng mlynedd, neu'r hên wr am bechodau triugain mlynedd a deg ei boeni am dragwyddoldeb ? Och, y mae'r meddwl yn ofnadwy—yn ddychrynllyd ! Meddwl fod dyn—fod cyfaill anwyl—fod tad neu fam, fod brawd neu chwaer neu blentyn anwyl, yn syrthio—yn suddo yn ddyfnach ddyfnach yn y berwlyn o dân tragwyddol. A oes cyfartaledd rhwng pechodau hir-oes bywyd dyn a phoenau'r gosp dragwyddol a ddisgrifir gan y bardd :

> " Mae'r poen yn annhraethadwy, rhyw lyn ofnadwy yw
> O gymmysg tân a brwmstan a llid anfeidrol Duw :
> Y pryf nad yw yn marw, na'r tân yn diffodd chwaith,
> I bellder annherfynol y tragwyddoldeb maith."

Nid oes gan y dyn sydd wedi gweled cap ffwrnes gwaith haiarn yn cael ei godi, a safn y ffwrnes yn ymagor, a'r haiarn hylif yn berwi i fyny, a'r fflamiau yn saethu trwy'r gwddf, nes goleuo'r holl wlad oddiamgylch, oddiwrth yr ymddangosiad hwnw ond amgyffrediad gwan iawn am ddychrynusrwydd y safn y bydd dynolryw yn suddo iddo ar ol marw. Agored Dychymmyg ei llygaid ac edryched,

> " Dacw safn yr anoddyn yn cael ei hagoryd
> A hwythau yn esgyn yn heigiau dychrynllyd :
> Yn gymmysg ellyllon a dynol eneidiau
> A mwg du-dew'r ffwrn yn orwylltion wrthrychau."

Gwrandawer etto fardd arall yn canu—ïe, yn canu, yn ysgafn a llithrig yn ei farddoniaeth, os yn arw yn ei syniadau :—

"Gwel obry wagle enbyd,
Lle trig tragwyddol benyd,
O gwr bwygilydd;
Ei llawr, yn aelwyd frwdias fawr,
Brwmstanllyd belau
Berw-boeth dalpau,
Uffernol ffyrnau,
A myglyd meiliau mwll,
A'r seirph yn glymiau gwynias
Oddiamgylch ym mhob twll."

Yno, yn y llyn o dân a brwmstan a llid digofaint Duw; yno, yng nghwmpeini seirph a chythreuliaid; yno,

"Lle mae y ddedryd "dam-ni-o,"
Fyth, FYTH yn swnio'n sŷn;"

Yno, y mae'n rhaid i ddyn i wneud ei gartref am oesoedd diderfyn tragwyddoldeb. Yno, meddai Spurgeon, yr hwn sydd yn awdurdod ar y pwnge hwn: "Bydd corph ac enaid gyda'u gilydd, bob un yn llawn i'r ymyl o boen—y corph o'r pen i'r troed drosto yn gyflawn o ing; y pen yn cael dioddef poen arteithiol; y llygaid yn ymsaethu o'r soced wrth olygfeydd gwaed a gwae; y *pulse* yn rhuthro gyda chyflymdra arteithiol; yr aelodau yn clindarddach fel eiddo'r merthyron yn y tân; yn cael ei osod yn y llestr o olew berwedig, yn cael ei boeni, etto yn dyfod allan heb ei ddinystrio." Ai dyma gartref tragwyddol naw o bob deg o ddynol ryw ynte? Beth yw tragwyddoldeb?

"'Nol byw o dan arteithiau flynyddau rif y gwlith,
Ni fyddys dim ond dechreu y poenau bery byth,
Ac wedi'n byw flynyddau, rhifedi llysiau'r llawr,
Ni bydd ond megys munyd o'r tragwyddoldeb mawr.

Trachefn 'nol byw flynyddau, rif sêr y nef yn awr,
Rhifedi'r mân ronynau sy'n gwneud y ddaear fawr,
Rhif dafnau'r trwm gafodydd, er creadigaeth byd,
O'n blaen bydd tragwyddoldeb 'nol treulio rhai'n i gyd."

Etto gallwn ofyn beth yw tragwyddoldeb? Pe cymmerai aderyn at y dasg, a chael oes digonol at y gwaith, i gario Bannau Brycheiniog i'r *Bristol Channel* neu'r Eryri i'r *Cardigan Bay*: a phe cariai ddim ond un gronyn ar y tro, a dim ond un gronyn bob mil o flynyddau, byddai hyny yn ddiammheu yn amser maith, buasai braidd yn anamgyffredadwy o hir; etto ni fuasai ond megys munyd o'r tragwyddoldeb mawr, byddai hwnw o hyd ar ol. Yno, yn y fath le, yn y fath drueni, dros y fath amser diderfyn y mae'n rhaid i ddyn, y mae'n rhaid i chwi a minnau feallai i wneud ein cartref.

Dywed John Calvin fod Duw, wedi penodi nifer gosodedig o etholedigion a gwrthodedigion; wedi arfaethu y miloedd i ogoniant, y miliynau i wae; ac yn cael ei ogoniant yn gymmaint yn namnedigaeth y miliynau ag yng nghadwedigaeth y miloedd. Pwy, pwy fydd yn gadwedig? pwy yn golledig? Dywed yr Ysgrythyrau mai y rhai a wnaethant dda a gânt adgyfodiad bywyd, y rhai a wnaethant ddrwg adgyfodiad barn. Ai felly y dysg yr athrawiaeth ni? Onid yw yr Etholedigaeth yn hollol ddiammodol?—yn hollol annibynol ar y gweithredoedd?

Y mae agwedd arall i'r athrawiaeth yn dysgu fod—pawb sydd a'i gredo yn iawn,—pawb sydd a ffydd yn yr Iesu,—pawb sydd yn credu yn yr Iawn a dalwyd ar Galfaria, yn gadwedig. Ond y mae miloedd lawer yn hollol ddifatter o'r Iawn; miloedd lawer yn methu cael sylfaen ysgrythyrol i athrawiaeth yr Iawn; a miloedd miloedd mwy na chlywsant erioed air o sôn am yr Iawn; ac a ydyw y rhai hyn oll yn golledig? yn gofledig o herwydd pechod Adda eu hên dad? yn golledig yn dragwyddol o herwydd peidio credu peth oedd yn ammhossibl iddynt ei gredu am na chlywsant erioed air o sôn am dano?

Gwrandewch eiriau Cenhadwr: "Y mae'r paganiaid yn gynnwysedig yn ninystr y gwrthgiliad; yn ddeiliaid llygredigaeth dwfn ac ofnadwy, yn hollol anaddas i'r nefoedd, ac yn bennodedig wedi eu dedfrydu i ddinystr. Pe gallai Cristnogion y wlad hon sefyll ar ryw uchelfan, ger llaw pyrth tragwyddoldeb, a gweled ffrwd ysgubol o enaidiau anfarwol o deyrnasoedd Paganiaeth bob dydd, bob awr, yn passio trwodd, ac yn suddo i'r dyfnderoedd diwaelod obry, pa lygaid na wlychid â dagrau? Pa fynwes na chwyddai gan gynnhwrf? Pa dafod na weddiai, na lefai ar Dduw, ar i'r afon yma o farwolaeth gael ei hattal? Enaid anfarwol ar ymyl uffern, yn meddu cymmhwysderau i'r nefoedd, a darbodaeth cyflawn am iachawdwriaeth! O, 'r fath olygfa! Multipleiwch hwn wrth 600,000,000, ac wedi hyny meddyliwch am yr arddangosiad!!" Pa fodd y gallai'r Salmydd ddywedyd, "Gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysoedd lawer?"—os oedd yn gwybod fod naw o bob deg o'r holl ddynion sydd wedi bod yn y byd erioed yn awr yn uffern, a bod naw o bob deg o'r rhai sy'n awr yn fyw yn brysio i'r un arosfa dragwyddol? Hanner can mil bob dydd yn myned i lawr i'r tân nad yw yn diffodd, a chwech can miliwn yn teithio ar hyd yr un llwybr.

"Oni ddylech feddwl," meddai Cenhadwr oedd newydd ddychwelyd o China, "o leiaf un waith yn y dydd am yr hanner can mil sydd yn y dydd hwnw yn suddo i dynged y colledigion?" Ac meddai 'Cymdeithas y Genhadaeth Dramor,' yr hon sydd yn casglu arian i anfon Beiblau i'r Paganiaid, "Y mae yn waith o angenrheidrwydd mawr, i anfon yr Efengyl (? Newydd Da) i'r Paganiaid. O fewn y 30 mlynedd diweddaf y mae cenhedlaeth gyfan o 500 o filiynau wedi myned i lawr i drueni tragwyddol!" O, Dad tirion! O, Arglwydd—beth?—daionus *i lawb*, a'i drugaredd ar ei holl waith? 50,000 bob dydd! dros 2000 bob awr! 34 bob munyd! ac un bob dau eiliad—bob tro y dywed y cloc dic-dac, un yn syrthio "i'r tanllyd wely."—Dic-dac, dyna un; Dic-dac, dyna un arall! Felly Sul a gwyl, bob dydd a nos, yn ddibaid o hyd o hyd, y mae plant y Duw Mawr, y Tad tirion, yn syrthio i uffern i ddioddef poenau tragwyddoldeb. Ie, byth, *byth*, BYTH, bydd miliynau ar filiynau yn griddfan ac yn ocheneidio. Weithiau yng nghanol y tân hylif, berwedig, bydd geneu ambell i un yn codi i'r wyneb ac yn llefain allan, O, Arglwydd, pa hyd? Ac angel yn ei ddisgleirdeb a'i ogoniant a ddaw, a chan filachio goleuni fel mellten trwy'r tywyllwch dudew, a ettyb, *Byth*, BYTH. Ond drachefn a thrachefn, a'r un ochenaid i fyny, Pa hyd, O, Arglwydd? a dringlyn (*pendulum*) cloc tragwyddoldeb yn crogi uwchben a ettyb, *Byth*, BYTH, *byth*, BYTH!

Bob amser yn marwhau, dim byth wedi marw. Pan fo oesoedd o drueni nas gall tafod draethu, na meddwl amgyffred, wedi treiglo ymaith, cyfyd y

llef i fyny: "O Arglwydd, pa hyd!" A daw llais oddiwrth y Goruchaf yn dywedyd, '*Am byth!*' Myrddiynau o flynyddau, cylchwy ar gylchwy o ganrifoedd a dreiglant ymaith, a'r colledig un waith etto a ysgrecha allan, '*O Arglwydd, pa hyd? pa hyd y mae'n rhaid i mi ddioddef hyn oll?*' Ac fe ddaw oddiwrth yr Anfeidrol fry yr un atteb ag o'r blaen, '*Am byth!*' Tragwyddoldeb—eiliadau yr hwn ydynt filiynau o ganrifoedd—tragwyddoldeb a dreigla yn ei flaen, nes y byddo angylion ac archangylion, a phawb ond y Digrëedig Un wedi penwynu gan henaint, a'r un llef ymbiliol a esgyn i fyny o'r gwely marwhau tragwyddol hwnw, 'Pa hyd,' ac etto llais yr Anghyfnewidiol a ettyb fel o'r blaen, '*Am byth!*'

O Dad anwyl o'r nef! a all hyn fod yn wir? Onid trugaredd fyddai cael aros byth yn y bedd yn hytrach na chael adgyfodi i'r fath gyflwr a hwn? Onid naturiol, onid cyfiawn llef y colledig yn wyneb hyn?

"Pan torir y cadwynau sy gylch fy nhawel fedd,
O greulawn, greulawn Angeu na roit yn hwy dy hedd!
O pam y'm hatlonyddi?—y'm dygi o'r bedd i fyw?
Y'm bwri'n goelcerth allan i fôr digofaint Duw?

Lle bydd rhuadau'r fflamiau, a sŵn y gadwyn ddur,
Ofnadwy rym hyawdledd dialedd, poen, a chur
Yn unig bwnge fy nghariad; a goleu'r duaf dân
Yn unig fwyd ac ymborth i'm gloyw olygon glân.

A raid i'r holl bwerau rowd i mi gan fy Ner,
I gyffro tannau'm natur i fiwsig mwyniant per,
Gydgodi a'm gelynion yn f' erbyn, fel pe bae,
Cof, rheswm, deall, teimlad, yn nynnu'm cwyn a'm gwae.

A gaiff y llais ordeiniwyd gan Dduw i ganu ei fawl,
Ymlygru i ocheneidiau, a chwythu tanau'r d—l?
Och, och, fod rhaid i'm feddwl, a'r mwg yn codi i'm ffroen,
Gael bod dros fyth mewn bywyd, dros fyth gael byw mewn poen.

Dim seibiant am un funyd, yn angerdd poen o hyd,
Dim gobaith am adferiad o bedwar ban y byd!
Trugaredd! o Drugaredd! d'wed, d'wed, a'i marw wyt ti?
O d'wed ai marw yw Cariad yn ffynnon Cariad fry?"

Ai Cariad yw Duw? Oblegid ein Duw ni sy dan ysol. Ai byth yr ymryson Efe? ai byth y ceidw Efe ei ddigofaint? A ydyw yn bossibl y gall fod dedwyddwch yn y nefoedd, cyhyd ag y byddys yn gwybod fod rhai yn poeni yn uffern? A all tad deimlo'n ddedwydd yn y nefoedd ac yntau yn gwybod fod ei fab yn uffern yn poeni am dragwyddoldeb? A ydyw yn bossibl y gall gwr neu wraig, neu fab neu ferch, fod yn ddedwydd yn y nefoedd, a hwythau yn gwybod fod perthynas, neu rywun nad yw yn berthynas, yn poeni yn uffern?

Gwrandawer Jonathan Edwards:—"Bydd y saint yn cael eu gwneuthur yn fwy teimladwy mor fawr yn'eu iachawdwriaeth, pan y gwelant mor fawr yw'r trueni oddiwrth yr hwn y mae Duw wedi eu hachub hwy, ac mor fawr y gwahaniaeth y mae wedi wneuthur rhwng eu cyflwr hwy a chyflwr ereill, y rhai oeddynt wrth natur, ac feallai dros amser wrth ymarferiad yn fwy pechadurus ac yn fwy haeddiannol o uffern na neb. Dyry iddynt deimlad mwy o ryfedd ras Duw yn ei fod yn gwneuthur eu cyflwr hwy yn wahanol." "Bydd gweled poenau uffern yn derchafu dedwyddwch y saint am byth."—

"Y mae'r teimlad o'r trueni gwrthwynebol yn cynnyddu yn fawr bob amser yr archwaeth am unrhyw lawenydd neu bleser!" Ai teimladau nefolaidd sydd yn cael eu harllwys allan fel hyn? Etto gwrandawer darluniad Spurgeon—y fam yn y nefoedd:—"Ond yn awr y mae eich mam yn dywedyd, Yn awr, fy mab, y mae wedi cyfnewid. Nis gallaf wylo yn hwy yn awr, oblegid yr wyf wedi fy ngogoneddu. Nis gallaf weddio drosoch mwy yn awr, oblegid y mae gweddiau yn ofer yma. Yr ydych yn gyfiawn wedi eich colli. Yr ydych wedi eich damnio, a rhaid i minnau ddywedyd, 'Amen' i'ch damnedigaeth." Dyna iaith mam yn y nefoedd wrth ei phlentyn yn uffern! Onid yw dynoliaeth yn attcb, "Yr Arglwydd a'n gwaredo ni o nefoedd Spurgeon," os yw yn rhaid iddo gyfnewid ein teimladau goreu ni er gwaeth! Onid mwy teimladwy, mwy Cristnogol, mwy nefolaidd, iaith y tad hwnw, yr hwn wrth dynu ei law dros gudynau euraidd ei blentyn bach a ddywedodd, "Pe buaswn i yn y nefoedd, ac yn gweled fy merch fach yn uffern, a ydych chwi ddim yn meddwl y buaswn i yn rhuthro i lawr yno ar ei hol?" Dyna lle'r oedd iaith y natur ddynol yn llefaru; ac yn gyffelyb yr hên Radbod, brenin Paganaidd, yr hwn ar ol hir wrthod, a ganiataodd yn y diwedd i gymmeryd ei fedyddio. Ar ol gosod un droed yn y dwfr, gofynodd i'r offeiriad, a gawsai efe weled ei gyndeidiau yn y nefoedd. Wedi clywed eu bod hwy, fel Paganiaid heb eu bedyddio, yn y trueni tragwyddol; tynodd ei droed yn ol, a gwrthododd gymmeryd ei fedyddio, yr oedd yn well ganddo fod gyda'u hynafiaid yn uffern, na chyda'r offeiriaid Cristnogol yn y nefoedd. "Nis gall nefoedd fod yn nefoedd i mi," meddai efe, "os wyf i edrych i waered ar drueni tragwyddol pawb ag oeddwn yn garu yma." Onid sylwedd, hanfod, hunaneiddrwydd yw fod dyn yn teimlo hyfrydwch ym mhoen ei gyd-greadur?

Dyn—megys am un foment ar y ddaear, ac wedi hyny am dragwyddoldeb yn y nefoedd, neu yn uffern!

"O'm hyder yw mai, rhywfodd, da
Fydd diwedd pob daearol foes,
Pob poen, a phob ewyllys groes,
Ammheuaeth a phob dynol bla.

"Yn ddall na rodia dim ei daith,
Na chollir dim un bywyd byth,
Na thaflir dim i ddamniol nyth,
Pan ddygo Duw i ben ei waith.

"O, dim a wyddom am Ei ffyrdd
Ond credu wnaf mai da a fydd
Ryw bryd—ym mhell—i BAWB—ryw ddydd—
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd.

"Felly fy nghred, ond beth wyf fi?
Baban yn crio yn y nos,
Yn crio am y wawrddydd dlos,
Heb un iaith genyf, onid cri."

A ydyw rheswm yn dysgu y cospa Duw ei blant mewn bythol dân? A ydyw'n bossibl fod yr Ysgrythyr yn dysgu hyny? Cospi byth, byth?—i beth? Ai gwir fod Duw yn ymhyfrydu mewn poeni ei blant? Ai Cariad yw Duw?—ai amcanion cariadlawn fydd ganddo wrth gospi? Dywedir nas gall fod ond tri amcan i gosp, boddio ysbryd dialeddol, rhwystro ereill i droseddu, a diwygio'r troseddwr. Pa un o'r tri sydd yn cydweddu yn oreu â chymmeriad Duw o gariad? Y mae rhywbeth yn ddychrynllyd ofnadwy yn y darluniadau ysgrythyrol o gospedigaeth ddyfodol. Y mae rhyw gaddugrwydd rhyfedd yn eu hamgylchu—rhyw ammhenodolrwydd diafael. Yn llythyrenol y maent yn anghysson hollol a'u gilydd. "Os oes llyn o dân, nis gall fod pryf yn bwyta. Os cymylau a thywyllwch yw, nis gall fod yn ddiluw o dân. Os marwolaeth a dinystr yw yn llythyrenol, nis gall fod yn boen teimladwy. Os colliad yr enaid yw, nis gall fod yn ddioddefaint yr

enaid. Meddwl fod y darluniadau yma yn llythyrenol, yw meddwl y bydd y byd dyfodol yn gyffelyb i'r un presennol; oblegid y maent oll wedi eu tynu oddiwrth wrthrychau presennol." Pa le, pa fodd, y byddys yn cospi ychydig a wyddom. Ond rhywfodd yr ydym yn gobeithio—yn hyderu na fydd y Tad Mawr ddim yn cospi yn ddi-amcan, yn ddi-amcan da.

Y mae ieithwedd yr Ysgrythyr ac ieithwedd y Dwyrain yn gyffredin yn llawer mwy ffugiol na'r ciddo ni, yr hyn a gyfrif am amlder eu cymmhariaethau. Ystyr y gair* a gyfieithir fynychaf yn 'Uffern' yn yr Hen Destament yw'r *bedd* neu *ardal y meirw*. Yn y Testament Newydd y mae dau air yn cael eu cyfieithu yn 'uffern.' Ystyr un yw y †*cyflwr anweledig*, y *bedd*; *Gehenna* yw'r gair arall, a 'thân uffern' yw *tân Gehenna*. A Gehenna oedd enw dyffryn gerllaw Jerusalem, lle'r oeddid un waith wedi bod yn aberthu i'r Pagan dduw Moloch. Edrychid ar y lle gan yr Iuddewon mwy diweddar fel yn halogedig. Yr oedd aberthau dynol yn eael eu gwneud yno, a chredid mai yno y cawsai yr annuwiol eu taflu ar ddyfodiad y Messia. Dywedir mai yno hefyd y taflid holl wehilion tref Jerusalem, a bod tân yn cael ei gadw yng nghyn yno yn barhaus.‖ Os felly, y mae'r casgliad yn naturiol sut y cyssylltwyd 'tragwyddol' ac 'anniffoddadwy,' ag ef. Ond a ydyw y tânau yma yn parhau i losgi? Dywedir na cheir ond tair enghraifft lle mae Crist yn cyssylltu 'tragwyddol' a thân neu gospedigaeth;§ ac etto dywed Archesgob Canterbury wrthym fod yr athrawiaeth o ddioddefaint tragwyddol y drwg yn gorphwys ar yr un prawf ysgrythyrol a bendigedigrwydd tragwyddol y cyfiawn.

Unwaith etto—Beth yw 'tragwyddoldeb?' Cawn mai ei ystyron mwyaf cyffredin ydynt, *hywyd*, *oes*, *goruchwyliaeth*, *byd*. Yr hyn a ddengys nad yw bob amser yn dynodi yr hyn a feddylir yn gyffredin wrtho. Bod yn dragwyddol, meddai y diweddar Mr. James o'r Gellionen, yw, Bod tra byddo peth arall yn bod. Rhaid yn wastad geisio ystyr y 'peth arall' yma, ystyr y gair y mae'n cael ei gyssylltu ag ef. Pan byddo'r 'peth arall' yn ddarfodedig, y mae'r tragwyddoldeb a briodolid iddo yn darfod gydag ef. Rhoddwyd Canaan yn etifeddiaeth dragwyddol i Abraham.** Yr oedd brenhiniaeth Dafydd i fod yn dragywyddol.†† Addawodd Crist anfon Diddanydd i fod gydâ'u ddisgyblion yn dragwyddol.‡‡ Sonir am y "mynyddau tragwyddol," etto "hwynthwy oll a heneiddiant," ond y mae Duw yn dragwyddol, byth heb un cyfnewidiad. Sylwn ynte ar natur y peth a ddywedir ei fod yn dragwyddol, a ydyw felly yn naturiol, ynddo ac o hono ei hun; os nad yw, y mae'n rhaid fod terfyn iddo. Ystyr cyntaf y gair a gyfieithir yn *gospedigaeth* ym Matt. xxv. 46, yw, *ysgythriad*, a diben y garddwr wrth ysgythru'r coed yw eu gwneud yn well; peri iddynt ddwyn rhagor o ffrwyth. Ei ail ystyr yw cospi neu *geryddu er lleshad*|||—ceryddu fel y dylai pob tad daearol geryddu, er mwyn gwneuthur y plentyn yn well. Yn yr ystyr yma nid oes dim ceryddu yn hwy na byddo'r cerydd yn atteb ei ddiben, wedi hyny bydd y gospedigaeth dragwyddol yn darfod. Meddai

* *Sheol*—Deut. 32. 22; Ps. 16. 10; Gen. 42. 38; Es. 38. 18.
† *Hades*—Mat. 16. 18; Act. ii. 27, 31; (1 Cor. xv. 55, yn Tisch. *bedd* ddwywaith.)
‡ *Gehenna*—Mat. 5. 22; 18. 9; 5. 29, 30; 10. 28; 23, 15; 23. 33.
‖ Cr. Jer. 7. 30—33; Es. 30. 33; 2 Bren. 23. 10; Jer. 19. 13.
§ Mat. 18. 8; Marc 9. 43—46; Mat. 25. 41, 46.
** Gen. 17. 7; †† 2 Sam. 7. 16.—1 Cor. xv. ‡‡ Ioan xiv. 16. ||| Arist. Rhet.—Clemens Alex:—Ceir rhagor ar hyn heb fod yn faith.

Gregory Nyssa, "Caiff yr anwelladwy yn y bywyd hwn eu gwellhau trwy foddion llymach a chwerwach yn y bywyd nesaf." Dyna obeithiwn ni, ac am hyny allwn ni ddim llai nag ymwrthod a'r athrawiaeth gyffredin. Ychydig neu lawer fydd y ffonodiau yn ol fel y byddo'r alwad. Y mae Duw yn dân ysol, y mae Duw yn gariad. Mewn cariad bydd yn ceryddu, bydd yn ceryddu am ei fod yn caru. Wrth ddarllen yr ysgrythyrau, yr ydym yn cael yr addewidion o ddedwyddwch dyfodol oll yn gysson; nid ydynt yn gadael un aneglurdeb nac ammheuaeth. Y mae yn fywyd, tangnefedd, gorphwysfa; gwybodaeth, perffeithrwydd; gogoniant, bendigedigrwydd. Ond y mae bygythiadau drwg dyfodol yn amwys, yn dywyll ac aneglur, ac os cymmerir hwy yn llythyrenol, yn anghysson. Y mae yn fywyd ac yn farwolaeth, yn boenedigaeth ac yn ddinystr. Y mae gan hyny yn gadael rhyw argraphiad tywyll ond ofnadwy. A dychrynllyd yn ddiammheu fydd cospedigaeth pechod. Er, gydâ golwg ar y bywyd wedi'r bedd, mai ychydig neu ddim a wyddom am y pa fodd, y pa le, y pa bryd; etto dilys yw mai nid di-euog fydd yr annuwiol, nid digerydd chwaith. Os na fydd y gosp yn dragwyddol, etto bydd yn gosp ofnadwy, ac yn parhau nes y byddo yn atteb ei diben. Os na fydd yn gosp tân a brwmstan, y mae'n debyg o fod yn gosp mwy dychrynllyd o dan law cydwybod.

"Cydwybod euog dan y fron,
Gwae'r un a deimlo bicell hon."

"Teyrnas nefoedd," meddai'r Iesu, "o'ch mewn chwi y mae." Ac y mae yn ymddangos yn naturiol i mi i gredu, mai yn y fynwes y bydd cyfoeth neu dlodi, gwobr neu gosp, y byd nesaf yn ymgartrefu; mai nid lle yw nefoedd, ond cyflwr; mai nid lle yw uffern, ond cyflwr; mai nid peth cyfyngedig i'r bywyd nesaf yw nefoedd nac uffern, ond peth y mae dyn fwy neu lai yn cael profi o honynt yma.

Yn gyffredin, dywedir, fod dynion i gael eu rhanu i ddau ddosparth yn unig, y caiff pawb o un dosparth fynd i ddedwyddwch y nefoedd, a phawb yn y dospnrth arall i drueni uffern. Yn awr y mae'n amlwg fod yn rhaid fod llawer iawn o raddau yn y dosparth olaf yma. Rhai yn well, rhai yn waeth. Eithr dysg yr athrawiaeth y byddant oll yn cael eu cospi yn gyffelyb mewn bythol bythol dân. Dywedir fod pob trosedd yn gyffelyb; fod pob trosedd yn erbyn Bod Anfeidrol yn drosedd anfeidrol, ac yn galw am gosp anfeidrol; ac felly fod bod meidrol yn gallu cyflawni gweithred anfeidrol! yr hyn sydd yn ymddangos, o leiaf, yn wrthun iawn. Y mae'n ymddangos yn fwy rhesymol i gredu fod graddau mewn drwg, ac y bydd graddau hefyd yn y gosp. Nis gallwn gan hyny ganiatau mai dau ddosparth yn unig sydd neu fydd. Hyn a ganiatawn, fod dau ddosparth o weithredoedd, y naill yn tueddu i niweidio dyn, y llall i'w wneud yn well; y naill yn tueddu i'w ddedwyddoli, y llall i'w wneud yn annedwydd. Hyn a ganiatawn fod dyn bob tro y troseddo yn peri colled tragwyddol iddo ei hun. Dlinell union—ffordd gul sydd yn arwain i'r bywyd, a phob cam a roddo dyn oddiar y ffordd, bydd y cam hwnw yn nes yn ol yn dragwyddol na fuasai pe heb droseddu.

Diben crefydd yw ein galluogi i feddiannu nefoedd a gochelyd uffern. Peth yw crefydd gan lawer, nid i sirioli'r gwynebpryd, nid i ysgafnhau'r galon, ond i wneuthur y galon yn drist; peth i ddwyn galar ac nid gorfoledd; peth i leddfu'r ysbryd, ac nid i'w ddiddanu a'i gyssuro; peth i roi

iechydwriaeth i ddyn 'nol mynd trwy borth marwolaeth, ac nid peth i roi nerth iddo i gyflawni yr hyn sydd iawn ar ei daith a'i bererindod trwy'r byd; meddyginiaeth rhag uffern ac nid bwyd beunyddiol bywyd; peth i sierhau nefoedd mewn byd arall, ac nid peth i alluogi dyn i fyw yn deilwng o nefoedd yn y byd yma. Y teimlad cyffredin yw mai diange o uffern—o afael crafangau'r Diafol, yw Iachawdwriaeth; dyna'r peth mawr, ail beth yw myned i'r nefoedd, a pheth yn cael llai o sylw fyth yw byw yn deilwng o nefoedd. Y mae lle i ofni fod mwy o siarad am uffern nag o gredu ynddo; a lle byddo rhith o gredu, uffern i ryw un arall yw fynychaf.

Pechod yw anghyfraith, rhinwedd yw ufudd-dod i gyfraith. Pechu mae dyn pan fo'n troseddu ar ddeddfau ei gyfansoddiad. Y mae cosp yn anwahanadwy yng nglyn a phob trosedd, a diben y gosp yw dwyn dyn yn ol i ufudd-dod, peri iddo beidio troseddu mwy. Canlyniad trosedd yw poen; eithr edrych ym mlaen y mae poen, ac nid yn ol. Goleu-dŷ (*light-house*) yw ar fôr bywyd i rybuddio dyn o berygl; nid yn gymaint i ddywedyd, Fan yma y mae llawer llongddrylliad wedi cymmeryd lle ag i ddywedyd, Gochelwch, y mae perygl fan yma. Nid diben Crefydd yw rhyddhau dyn oddiwrth ganlyniadau pechod, eithr oddiwrth nerth pechod; symmud y drwg, nid ei guddio. Ar ol pechu nis gellir gochelyd y gosp; gellir peidio ei deimlo am dymmor, ond y mae yn sier o ganlyn. Uffern yw'r teimlad o euogrwydd sydd yn canlyn trosedd; nefoedd yw'r teimlad o hyfrydwch sydd yn anwahanadwy yn gyssylltiedig a chyflawniad dyledswydd. Calvin, os ydym yn cofio yn iawn, sydd wedi dywedyd, mai "Colyn Cydwybod euog yw uffern yr enaid byw." Diben holl geryddon y Tad yw dwyn dyn o uffern i'r nefoedd; dwyn dyn "I hoffi'r da, ffieiddio'r drwg; goleuo'r deall, puro'r galon, gwneuthur y gydwybod yn fwy teimladwy; dwyn pob gweithred, pob gair, pob meddwl, dan lywodraeth rhinwedd a duwioldeb; dysgu dyn "Fel ofni poen, i ofni pechod;" ei ddihatru o bob peth fo'n anghydweddol a'i wir ddedwyddwch, a phlanu yn ei fynwes anian Crist, anian y nef, anian y Tad.

Trwy lawer o ddioddefiadau y mae'n rhaid i ddyn gyrhaedd yr uchelfan yma. Trwy dân y mae'r aur yn cael ei buro, trwy ddioddefaint e burir y dyn goreu; ond ein hyder yw y purir pawb yn y diwedd. Er mwyn cael meddiant o nefoedd, rhaid colli pechod;* rhaid symmud ymaith y duedd at bechod, a gosod yn ei le duedd at rinwedd. Ni fydd nefoedd i neb ond i'r graddau y byddo'n bur—i'r graddau y byddo'n meddu "Y galon loyw lân, a'r anian gywir union." Y sawl fyddo wedi cael mwyaf o nefoedd yma, a gaiff etto fwyaf o nefoedd yr ochr draw. Y sawl fo wedi gwneuthur y goreu o'r byd hwn a gaiff y goreu o'r byd nesaf. Y sawl fo wedi cael mwyaf o fwyniant nef yma, a gaiff etto fwyaf o wobr nef yr ochr draw†. Nid cyfoeth a mawredd, nid porthi blysiau a chwantau anghymmedrol, eithr uniondeb, rhinwedd, anian Duw yn y galon sydd yn rhoddi nef yma, a'r un peth fydd yn ei roddi yn y nesaf. "Trwy gadw deddfau Crist o byd, ceir cyflawn fwyniant o'r ddau fyd."

Bod â'r llygaid ar Dduw yw dedwyddwch, bod â'r cefn arno yw anedwyddwch; bod â'r llygaid ar Dduw yw nefoedd, bod â'r cefn ato yw uffern.

* "And he that finds his heaven must lose his sins."—*Cowper*

† "Heaven our reward for heaven enjoyed below."—*Young*.

Wrth wneuthur da, o ddymuniad da, y mae dyn â'i wyneb ar Dduw ac yn ymneshau ato: wrth wneuthur drwg y mae yn cefnu—yn ymbellhau oddiwrtho. Diben poen yw peri i ddyn gadw ei wyneb ar Dduw; cynnhyrfydd—swmbwl yw, i'w yru at berffeithrwydd. Ni chospir un daioni, ni wobrwyir un drygioni. Pe gellid gosod y da yn uffern, troai'r uffern yn nefoedd iddo ef yn y man; a phe gellid dodi'r dyn drwg yn y nefoedd; ni fyddai'r nefoedd yn nefoedd iddo ef, tra byddai pechod yn 'gancar uffern' yn ei fynwes, a chydwybod euog yn gwmmwl i guddio pob disgleirdeb moesol oddiwrtho. Diben poenau'r corph yw adgofio dyn y dylai edrych at ddiogelwch ei gorph; a diben poenau'r gydwybod yw adgoffa iddo am ymdrechu cadw ei gydwybod yn lan. Ond yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd, yr hyn a wnaed a wnaed, ac ni fydd galw yn ol arno. Etto, ein gobaith, ein hyder yw "mai da a fydd, Rywbryd—ym mhell—I BAWB—ryw ddydd." Mwy yw dylanwad Cariad nag Ofn. Gall ofn beri ufudd-dod, eithr Cariad yn unig all enill parch a chariad yn y galon; ac y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn. Cariad yn unig a all gynhyrfu cariad. A thrwy gariad yn unig y gallwn ni roddi ein calonau mewn cariad. Duw'r Cariad, er iddo geryddu, a gerydda mewn cariad. Efe a gerydda, fel tad ei fab anwyl ganddo. Efe a gerydda bob pechod nes ei lwyr ddi-leu. A phan y delo'r amser (y mae etto mhell ym mhell, er pob argoelion a welwn ni; ond y mae'n siwr o ddod), pan fo pob dyn wedi dwyn pob chwant a nwyd a serch dan lywodraeth rheswm, cydwybod a deall da; ac oll yn rhedeg yn ddilywethyr ac yn ddi-angen eu ffrwyno law-law mewn ufudd-dod i gyfreithiau yr Iesu; at fwy fwy o uniondeb, cyfiawnder a sancteiddrwydd bob dydd; yn cynnyddu bob dydd ar gyffelybiaeth perffeithrwydd yr Iesu; cawn bob dydd fwy fwy o anian yr Iesu a'i Dad, fwy fwy o nefoedd i'n mynwesau, fwy fwy o nerth i orchfygu pob pechod—i wrthwynebu pob profedigaeth—i'n dâl i fyny yn yr ymdrech olaf ag Angeu a'r Bedd;—cawn nefoedd yma yn flaen ffrwyth helaeth, ac er cau ein llygaid yn yr Angeu, cawn eu cau mewn llawn hyder ffydd am gael eu hagoryd mewn nefoedd dragwyddol yr ochr draw.—AMEN.

R. J. JONES.

LLYS ANGEU.

PENDERFYNODD Angeu, brenin y dychryniadau i ddewis iddo ei hunan raglaw; a gorchymmynwyd gwŷr gwelw y llys, y gosgordd erchyll o Glefydau i fod yn wyddfodol, ac yr oedd pob un o honynt yn hawlio yr un anrhydedd o gael llanw y swydd ardderchog. Adroddai Twymyn am y miloedd oedd wedi eu distrywio ganddo ef; ac yr oedd y Palsi yn gosod ei hawl allan trwy siglo ei holl aelodau; a'r Dropsi trwy ei gorpws chwythedig ac anhylwyth.

Clun-hecianodd y Gowt i fyny a dygodd ar gôf y gallu mawr oedd ganddo ef i ddirdynu pob cymmal; ac yr oedd analluogrwydd yr Asthma i siarad, yn brawf cadarn, er ei fod yn ddistaw, yn ei ffafr ef; plediai Pla y gallu cyflym oedd ganddo ef i ddistrywio; a haerodd Darfodedigaeth er ei fod yn araf, etto ei fod yn sicr.

Yng nghanol yr ymryson yma, aflonyddwyd y llys gan swn miwsig a idawnsio, gwledda a gloddesta; ac wele yn y fan, dyma foneddiges yn dyfod i mewn, gydag ymddangosiad ëawn a difyr. Canlynid hi gan dorf o wyr

ifeinge a gwyryfon, oll yn llawen iawn ac oll yn derfysglyd. Yr oedd llu o fobl gwelw, crynedig, hen-cyn-eu-hamser o'r tu ol. Ei henw oedd ANGHYMMEDROLDEB.

Amneidiai â'i llaw, a chyfarchodd y dorf o Glefydau fel y canlyn :— "Rhoddwch le, chwi fyddin glâf o ffug-ymgeiswyr, ac na feiddiwch gystadlu â mi yng ngwasanaeth y brenin mawr hwn. Onid wyf fi yn fam i chwi oll? Onid ydych yn derbyn eich nerth i fyrhau einioes dyn braidd yn hollol oddiwrthyf fi? Pwy, ynte, mor addas a mi i lanw y swydd bwysig yma? Glas-wênodd y penadur mawr ei wên o gymmeradwyaeth, a gosododd hi ar ei ddeheu law, ac yn uniongyrchol hi a wnaethpwyd yn *favourite* mwyaf ac yn brif-weinidog.—*Cyfd. Pwy.*

MEDDYLDDRYCHAU GAU MEWN PERTHYNAS I'R BIBL.

Y meddylddrychau a goledda dynion yn gyffredin am y Bibl, a dueddant i gynnyrchu yn anocheladwy fawr amheuaeth, blinder ag anghrediniaeth, os na eglurhaer hwynt.

Nid oes gwrthwynebiad gan undyn i wir fwriad yr Ysgrythur. Cywiredd y Bibl, fel llyfr y galon tuag at hyfforddi y galon; fel llyfr a ymgymera i ymheddychu dyn a Duw: fel llyfr a ddadguddia gyfiawnder dwyfol a chariad; a ddadguddia anfarwoldeb trwy Iesu Grist; a ddadguddia egwyddorion o ddrwg a da; a ddadguddia yr athrawiaeth o wobr a chosb. Y gwirioneddau mawr sydd rymus, a cant eu derbyn braidd yn gyffredinol yn eu dulliau mwyaf rhiwiogaethol. Yr ymosodiadau ar y Bibl; y rhan fwyaf ydynt ymosodiadau yn erbyn y dull afresymol a hawlia esbonwyr iddynt eu hunain pan yn ymgymeryd â'r gwaith o'i esbonio. Gwyddiant *(science)* pan ddechreuwyd ei chael allan a wrthwynebwyd ar bob cam. Safai yr offeiriad fyny gan gyhoeddi, "Nid dyma'r seryddiaeth mae'r planedau wedi ddadguddio; ond dyma'r athrawiaeth seryddol a ddadguddiodd Genesis." Y croesdyniad cyntaf a wnaeth gwyddiant ar yr Ysgrythur a'i niweidiodd ar bob cam. A pha fodd y dihangodd yr Ysgrythur? Am genedlaethau buodd yn nwylaw'r offeiriadaeth yn gysgodlwyn i anwybodaeth. Pan troediodd dynoliaeth i mewn cafodd hunanoldeb a balchder wedi llwyr oresgyn yr eglwys ym mhob man a lle, a'r balchder a'r hunanoldeb yma a gyhoeddai, "Nid oes gyda chwi un awdurdod i draethu eich athrawiaethau dyngarol fel y gelwir hwynt. Nid ydyw y Bibl yn eu dysgu." A safa y Bibl ar ffordd diwygiad yn y cyfeiriad yna? Pam; wel ar y cam cyntaf ddarfu i ni ei gymmeryd ar y Cyfandir yma at ryddhad y Caethion, oni chawsom fod yr Hen Destament yn cael ei gyfodi yn uwch gwrthglawdd nag amddiffynfeydd Lee yn ein herbyn? Ai oni 'doedd raid ini hefyd ymrafaelio a gorchfygu heigiau o feibion Abraham, Isaac a Jacob cyn i ni gael plant Ham allan o'u caethiwed? Ag 'nawr yn Ewrop tra mae'r brenhinoedd a'r pendefigion yn gorthrymu eu dinasyddion cyfoethog, a'r dinasyddion cyfoethog yn gorthrymu y werinos, a'r werinos yn ceisio ymddyrchafu i safon priodol dynoliaeth a chymeryd eu llefydd i ymchwilio am Ogoniant a goleuni Duw. Beth fydd yn eu tywyllu ond y Bibl mawr agored yma yn cael ei ddala gerfydd un cwr gan y brenin, a'r llaw arall gan yr offeiriad. Hyd yn oed heddyw, yn y dyddiau hyn, cedwir y Bibl yn amddiffynglawdd gan unbenaithiaid, llywiawdwyr pendefigaidd, a Phabyddiaeth i lochesu yn llechwraid o'r tu cefn iddo. Os ydyw y werin bobl yn anghredu yn Ewrop, yr achos ydyw bod crefydd wedi ymlogi i ddrygioni yn nwylaw y llywodraeth a than yr awdurdodau eglwysig. Rhyddid druan a raid wneud un peth o'r ddau, gorfodir iddi fod yn anghredinol neu fod mewn caethiwed dros yr adeg bresenol. Nawr, bai pwy ydyw? Mawr fai offeiriaid, a brenhinoedd a phendefigion ydyw. Oblegyd maent wedi taflu y Bibl o'i gylch priodol ei hun, a'i wneud yn gochl i gyfiawnhau deddf-osodiadau mwyaf gorhrymus. Nawr, os ydyw y Bibl i gael ei osod goruwch pob diwygiad a gwyddor, a'i tosod i fynu gan ddynion yn gysgod-

lwyn i bob drwg ag anghyfiawnder; nid all ond cael ei ddifenwi a'i gashâu gan ddynion. Ond os gwaredir y Bibl rhag clogynoy fatu sal waith a'i ddwyn yn ol i'w gylch priodol ei hun, ca ei barchu a'i anrhydeddu gan bawb a wna ymarfer ag ef. Llyfr ydyw y Bibl i bob dyn a phawb; chwi wyddoch yr arferai yr offeiriaid unwaith ei berchenogi, cu heiddo hwy yn unig ydoedd, meddent. Cymerent ei gan eu cesellau gan ei gludo ymaith, fel y clyda cenau ei *bonds* a'i *mortgages* dan ei gesail, a dweud, "Dyma fy hawl-ddangosiaeth i o'm heiddo," gadawent i ereill ddarllen ychydig o hono; 'run fath yn union ag y gadawa dyn i'w gymydog ddarllen o'i *bonds* a'i *mortgages*, dim ond braidd cael cip edrychiad ar ei gyfoeth, ond y nhwy pia fe. Roedd ganddynt ddewis-fanau i gadw eu trysoran dan dyn rwymau. Megis ag y gwna llawer gadw eu papurau. Eu heiddo arbenig hwy oedd y ddefod o Fedyddio. Roedd Swper yr Arglwydd yn eiddo iddynt. Roedd holl ordinhadau yr eglwys yn eiddo iddynt, a hwy bai bawb a phob peth o'r ran hyny. Nawr, fy llyfr i ydyw y Bibl; rwyf yn ei berchenogi o Genesis i'r Datguddiad, ag mae yntau yn fy hawlio innau. Mae genyf awdurdod i eistedd yn nghysegr fy nghydwybod, ac yn ngoleuni ysbryd y gwirioneedd i ddarllen y cyfryw Feibl; gan mai myfi sydd attebol am fy nghred, mae genyf hawl i'r gred a rodda fy neall-lwriaeth i fi, heb ymofyn a chwi na neb arall ar y ddaear pa beth i gredu. Nid oes undyn i ofalu yn fwy na mi fy hun am fy nghaduedigaeth neu fy nghlledigaeth. A darllenaf fy Meibl ar draul fy anfarwoldeb; a chan fy mod yn dewis cymeryd y canlynadau, y Beibl sydd eiddo i fi, tuag at fy ngwasanaeth arbenigol, Mae hefyd yn eiddo pob dyn a dynes tuag at yr un gwasanaeth. Gallwch fyned at weinidog am gleuni; gellwch hefyd beidio; gellweh edrych mewn esboniad; gellwch beidio heryd fyned at weinidog nac esboniad. Llyfr Duw ydyw i bawb, uchel neu isel, tlawd neu gyfoethog, gwybodus neu anwybodus. Gellwch dramgwyddo ynddo neu allan o hono, yr ydym oll yn gwneud camsyniadau ar bob llaw. Ond mae'r Bibl yn ddarlunlen arbenigol genym ni, a thrwyddo cawn gyfarwyddyd i'n harwain i'r Nefoedd. Ond yr offeiriad a'i dwg allan o'r cylch mae yn dywysydd i ni, ag a'i gosoda mewn cylch penarglwyddiaethol ag awdurdodol. Dywed dynion, "Nad wyf yn credu y Bibl." Nid yn nghylch y gwir Feibl mae'r amheuaeth. Ond y Bibl *yn nwylaw yr offeiriaid* ydyw hwnw. Felly gwnaf innau ei amheu yn nwylaw y cyfryw. Pan gymera gwamalddyn y Bibl yn ei law, a'i ddwyn i ymyraeth ag i ddistrywio'r ffeithiau mawreddus a'r gwirioneddau diamhenol sydd mewn athroniaeth teddyliol, tuedda hyn yn uniongyrchol i bob un ag sydd yn coffeidio yr athroniaeth hono i fyned yn anffyddwyr mewn perthynas iddo. Dywedant, "Ni a wyddom fod y pethau hyn yn ffaith mewn athroniaeth feddyliol. A chan eich bod yn baeru fod y Bibl yn eu gwadu, nid oes ond un ffordd am dani, a honno yw, "Gwrthodaf eich Bibl chwi." Ie, ei Feibl *ef* ydych yn wrthod, ag nid *y* Bibl Canys Llyfr Duw ydyw y Bibl, ac mae wedi ei gyfansoddi yn y fath fodd nas gellir byth ei droi o'r neilldu. Fe all llywodraeth ymgodi a chwympo, ond ni chyfnewidia y Bibl. Fe all cyfreithiau gael eu llunio a chael eu diddymu; ond yr un ydyw y Bibl. Fe all gwyddhant adeiladu yn yr awyr a gosod y seiliau ar lawrian grisialaidd y sêr, gall adeiladu ar haenau dyner dan y dwfr neu ar dir, ag wrth chedeg ymestyn allan ei hesgyll trwy yr awyrgylch a mesur y gwynt trwy gyfreithiau gorunchion Fe all gwyddhant gymeryd fynu y corph dynol ac amcau-gyfrif ei anrywiol allwoedd, a gwneud a dweud beth ydyw rheol y gydwybod, a pheth ydyw deddf rheswm. Gall fyned i fynu, i lawr, i'r de a'r aswy, ond nid ydyw yn cyffwrdd a'r Bibl, ag nid yw yn ymgymeryd i gyflawni y cyfryw bethau. Saf y Bibl a chyhoedda yn ddidaw, "cenad beth ydyw eich golygiadau am reswm, am y gydwybod, ac am y galon." "Fod yn rhaid i chwi garu Duw a'r rheswm hwnw, a'r gydwybod ac a'r galon honno, ag hefyd eich cymydog megis chwi eich hunain." Yn y byd allanol yr ydym ni yma, trwy gymmhorth Duw a'i ddadguddiad yr ydym yn cael allan wirioneddau anianyddol. A rhaid inni ddefnyddio y cyfryw wirioneddau a'u cyfeirio yn ysbrydol. Cyfeiria yn uchel at ffyddlondeb ein Duw; Cariad Crist; gobaith am anfarwoldeb a thragwyddol undeb mewn gwynfydedigrwydd. Y gwirioneddau cedyrn sylfaenol yma y mae'r Bibl yn cadarn ddadlu o'u plaid. "Ond," meddweh, "eyfwng bychan iawn ydyw hyn yna sydd genych i'r

Bibl i'w feddianu." Faint mae cyfwng canwyll yn ei gadw? Dim ond twll bychan yn y canwyllbren. Ond pan fyddo yn disglaerio allan i'r ymdeithydd tlawd fyddo wedi colli ar ei ffordd ganol nos a syrthio i'r ffos, pa mor bell y cyrhaedda? ag iddo ef pa faint y cynnorthwy wrth ei arwain i'r brif ffordd ag i'w gartref croesawus! a pha faint gyfrynga i'r morwyr brawychus pan y rhydd oleuni i ganfod y creigiog draeth er achubiaeth i filoedd o longau! Diogelweh, onite; chwi ganfyddweh y gwna swyddwaith pwysig, er nad yw yn gofyn ond lle bychan i sefyll ynddo.

Ac er nad ydyw gair Duw yn gorchuddio ond sylfaen fychan, mae yr hyn y mae yn orchuddio mor fywiol ag yn sefyll yn anwahanol gysylltiedig â bywyd dyn. Yma a chwedi myned oddiyma, fel y disglaeria mewn golau clir; eto yr hwn ystyria a genfydd y traeth, y noddfa, a'r hafan ddymunol i sierwydd. Mae ystyriaeth o'i bwysfawrogrwydd yn rhagorol iawn yn y bywyd hwn, ond nid cymaint ag mae llawer yn ystyried; ond yn ddyfodol, tragwyddol, ac ysbrydol mae ei bwysfawrogrwydd tuhwnt i ddarluniad iaith.

H. W. Beecher.

Gohebiaethau.

SERYDDIAETH.

Traddodwyd *Darlith* ar y testun uchod yng Nghapel Ebenezer, (Annibynwyr) Trecynon, Aberdâr, nos Fawrth, Ebrill 18fed, gan y Parch. T. Thomas, Pant-y-defaid, Llandysul, i gynulleidfa luosog a pharchus. Cynygwyd gweinidog y lle i'r gadair, y Parch. W. Edwards, ac wedi iddo wneuthur rhai sylwadau, yn dwyn perthynas agos a darlith o'r fath, 'nol ei ddull ffraethlym, ac arferol, galwodd ar y darlithydd at ei waith yn nghanol cymeradwyaeth y dorf. Dechreuodd ar ei waith, ac olrheiniodd y gyfundrefn Seryddawl o'r cyfnod boreuaf, gan wahanol genhedlaethau, megis yr Aiphtiaid, Caldeaid, Groegiaid, &c., trwy amrywiol oesau hyd yn ddiweddar, gyda manylrwydd, a gofal neilltuol, beth oedd tybiau a gwahanol farnau, enwogion bob oes ynghylch yr Haul, a'r Bodau wybrenol, Comedau, &c., i foddlonrwydd cyffredinol. Eglurodd trwy gynorthwy y *(magic lantern)* gylchdroadau y llu wybrenol yn fanol iawn; gallasai fod yn well pe buasai y *lantern* wedi ei gosod yn ei lle priodol i ddangos effeithiolrwydd y lluniau; diamau y cymerir gwell gofal y tro nesaf yn hyn o beth; er hyn o ddiffyg, aeth y darlithydd trwy ei orchwyl yn ganmoladwy. Elid i mewn trwy docynau 1s. 6c., a 1s. yr un, a'r elw i fyned at leihau dyled capel yr Hen-dycwrdd; cewch y manylion am hyn eto. Teilwng yw crybwyll yma am garedigrwydd y gynulleidfa sy'n ymgynull yn Ebenezer, am rhoi benthyg eu capel at y gwasanaeth ar yr achlysur, maent yn deilwng o'r parch mwyaf, a gallaf eu sicrhau bod cynulleidfa yr Hendycwrdd yn dra diolchgar iddynt am eu cymwynasgarwch; a gobeithio nad yw'r amser ddim ym mhell, i bawb proffeswyr efengyl, i adael heibio edrych yn gilwgus ar eu gilydd o achos methu a chyd-weled mewn pethau a berthyn i'n dedwyddwch moesol, a chrefyddol; ond bod yn barod bob amser i roddi llaw o gymorth y naill i'r llall, er derchafu rhinwedd a daioni, a gwella moes a chenedl, gan gofio'r ymadrodd, "Anwylyd, carwn ein gilydd: oblegid cariad, o Dduw y mae; a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw." Ar y diwedd cynygwyd diolchgarwch i'r darlithydd gan y Parch. S. Davies, Soar, ac eiliwyd gan Mr. J. Williams, London Warehouse, a chafwyd cymeradwyaeth unfrydol y dorf. Cynygwyd diolchgarwch i'r cadeirydd am ei ymddygiad gweddus yn y gadair yn y drefn arferol; ac ymwasgarodd y gynulleidfa yn arddangos eu bod wedi cael eu llwyr foddloni.

Aberdar. Eiddil Cynon.

AT Y GOLYGYDD.

Mr. Gol.,—Yr wyf yn teimlo yn dra diolchgar i chwi am eich yspryd rhydd ac ammhleidiol yn caniatau i rai o wahanol olygiadau i gyhoeddi eu meddyliau ar dudalenau yr Ymofynydd. Gall y bydd ychydig o ymddiddan brawdol ar bynciau Ysgrythyrol yn fuddiol i'ch darllenwyr ac yn dderbyniol ganddynt,

Dymunwn i Obiah bach fod mor ostyngedig a ehymeryd gair o gyngor, h.y., i *gadw ei ochr ei hun.* Cymer y Calfin ofal Calfiniaeth; bydd yn teimlo mwy o ddyddordeb ynddi, nâ'i gwrthwynebydd, ac felly yn debyg o'i hamddiffyn yn well. Mae lle i ofni y gwna Obiah fradychu a chusan olygiadau *eraill;* mae llai o berygl iddo wneuthur felly a'i olygiadau *ei hun.*

Dywed Obiah i'r angylion adael gwlad eu genedigaeth. Dyna dywyllwch a ellir ei deimlo; ac os ewyllysia ddyfod o'r tywyllwch dorllened Matthew xxii. 30. Gwae h Obiah gynnyg da i atteb y 9fed gofyniad; gall llawer etto wneuthur yr un peth gydâ'r un cymaint o lwyddiant. Gellir gofyn llawer o gwestiynau anorphen heb fod fawr gwell, megis pa fodd yr oedd y sarff brês yn iachau brathiadau y seirff tanllyd, caerau Jericho yn syrthio wrth sŷn cyrn hyrddod, gwialen yn hollti'r môr, mantell yn hollti'r Iorddonen, &c. Ein dyledswydd ni yw credu'r *ffeithiau,* a gadael llonydd i'r hyn nad yw Duw wedi ewyllysio ei ddatguddio. Ceisio amlygu yr hyn sydd ddirgelwch berodd i Obiah, fel Saul, syrthio ar ei gleddyf ei hun drwy ddywedyd fod yr hyn a ysgrifenodd wedi drewi llawer yn ffroenau plant. Nid rhyfedd: plant yw plant; dewisant *ffyrling newydd* o flaen *hen sovereign;* cymerant eu cylch arwain gydâ phob awel dysgeidiaeth. Wedi dyfod yn hên dylent roddi heibio bethau bachgenaidd, a derbyn gwirionedd pûr. 'Nawr bydded Obiah mor garedig a dyfod yn nês at y pwnc, nid fel Pedr, dim ond tori clust gwas yr archoffeiriad, eithr gwnaed fel y gwnaeth Dafydd a Goliath, sef torri ei ben i ffwrdd. Dyna sydd eisiau ei wneud a phob cyfeiliornad. Y prif bwnc yn y ddadl yw p'un a oes diafol ai peidio. Dyweded Obiah beth sydd yn ei berswadio ef i gredu *nad* oes, ac yna ca wybod beth sydd yn fy nhueddu innau i gredu ei *fod.* Carwn gael gwybod enwau ar beth yw *diafol* a *satan,* os nad enwau ar ddim. Gan ddisgwyl clywed etto oddiwrth Obiah bach y gorphwys yr eiddoch yn ostyngedig.

CLOCHYDD O FRO CLETTWR.

Ebrill 22ain, 1865.

Hanesion Eartrefol a Thramor.

YNGHYLCH DIWEDDIAD YR AIL GYFRES O'R *YMOFYNYDD.*

AT EIN DARLLENWYR A'N DERBYNWYR—Drwg genym hyspysu fod ein iechyd (er nad yn anobeithiol) yn parhau i fod yn fur wael, y fath ag i'w wneud yn ofynol, er ceisio adferiad o hono i ryw raddau, i ni orphwys am ryw dymor, a myned oddicartref. Nid y'm ni yn gweled pa fodd i ochelyd diweddu yr ail-gyfres gyda rhifyn Mehefin. Modd bynag, dymunem beidio rhagflaenu yr hyn fydd gan gyfeillion yr *Ymofynydd* i ddywedyd ar y pwngc yn rhifyn Mehefin.

CYFARFOD CWARTEROL Y PASG—Cynnaliwyd y cyfarfod uchod yn Alltyplaca, y 19 a'r 20fed o Ebrill. Prydnawn dydd Mercher (y 19) dechreuwyd yr addoliad gan Mr. Rees Jones, Coleg Caerfyrddin, a phregethodd y Parchn J Evans a T. Lloyd. Boreu dydd Iau dechreuwyd trwy darllen a gweddi gan y Parch W. Thomas, Llwyn, a phregethodd y Parch. R. J. Jones, oddiwrth Heb. xii., 29, a 1 Ioan, iv., 8. Yn y cyfarfod prydnawnol pregethodd y Parchn. E. W. Lloyd a T. Lloyd. Yr oedd yr ymgynulliad yn dra lliosog. [Rhoddir Pregeth Mr. R. J. Jones yn y rhifyn hwn Bu peth camddealltwriaeth ynghylch ei chyhoeddiad y pryd hwn (o'n tu ni o leiaf) Daeth y llythyr yn ceisio genym i ohirio y cyoeddiad yn rhy ddiweddar i law.—GOL.]

Y SENEDD, Y CYLLID A'R TRETHI—Cyfrifai Mr. Gladstone y byddai y cyllid fel y canlyn: Customs 22,775,000p; *excise,* 19,030,000p. stampiau, 9,550,000p; trethi arosodol, 3,350,000p.; treth meddianau. 7,806,000p; llythyrfa, 4,250,000p; tiroedd y Goron, 352,000p; amrywion, 2,650,000p; iawn China, 450,000p.; yn gwneyd cyfanswm y cyllid yn 70,170,000p. Wedi cymeryd y draul o 66,139,000p. allan o hyn, dangosai weddill o 4,031,000p.—(Uchel gymmeradwyaeth). Yn awr yr oedd efe yn dyfod at y modd y defnyddid y gweddill hwn. Wedi dwyn amryw resymau yn mlaen yn erbyn dilead y

dreth ar 'frâg, a dangos nas gallant gyffwrdd â hi hyd yn oed cyn belled ag i roddi un ffyrling y chwart i'r treuliwr heb beri colled o 2,480,000p. i'r cyllid yn y flwyddyn gyntaf, a cholled o 3,360,000p. yn yr ail flwyddyn, ac na ddeilliai cynnydd i'r cyllid oddiwrth gynnydd y draul, ond y lleiheid y cyllid yn mhellach trwy leihau treuliad gwirodydd, efe a ddywedodd y defnyddid y gweddill fel y canlyn :—Gostwng 6c. y pwys yn y dreth ar de, yr hyn a barai golled o 1,868,000p. Gostwng treth yr incwm o 6c. i 4c. yn y bunt, yr hyn a achosai golled o 1,650,600p. Gostwng Treth Yswiriant i 1s. 6c. Bragwyr i gael eu dewisiad o dalu wrth y pwysau neu y mesur. Gostwng treth Stamp wrth osod tai bychain o 6c. i 1c. Gostwng y dreth ar arwerthiadau i 5 p. ac ar bleidiau siarter i 6c. Gostwng y dreth yswirebau o 1s. i 6c. Achosa y cyfnewidiadau hyn, ynghyd ag ereill o nodwedd fwy dibwys golled o 260,000p. Cyfanswm y gostyngiad mewn trethi yn y flwyddyn sydd yn rhedeg, i 3,778,000. Gweddill gwreiddiol, 4,031,000. Y swm a ddiddymir, 3,778,000p Gweddill clir, 253,000.

Nos Fercher, Mai 3edd, cynnygiodd Mr. Baines ar ail ddarlleniad o'i ysgrif er helaethu yr etholfraint i bawb yn y bwrdeisdrefi sydd yn talu chwe phunt o ardreth flynyddol. Dangosodd fod sefyllfa bresennol y cynnrychioliad yn anfoddhaol, ac yn orthrwm ar y dosbarthiadau gweithiol. Nifer poblogaeth Lloegr a Chymru yn y flwyddyn 1861 oedd 20 miliwn o'r rhai yr oedd 5 miliwn yn bersonau mewn oed. O'r pum miliwn hyn, yr oedd o ddeutu miliwn yn etholwyr mewn enw; ond wedi tynu allan y rhai oeddynt yn meddu pleidleisiau dros y siroedd a'r bwrdeisdrefi, nid oedd y gwir nifer ond ychydig dros 800 mil. Y mae yn ffaith eithaf hysbys fod tair rhan o bedair o bobl Lloegr a Chymru yn perthyn i'r dosbarthiadau gweithiol—neu, mewn geiriau ereill, pymtheng miliwn allan o ugain miliwn—ac y mae yn y nifer hwn dros bedair miliwn o bobl mewn oed nad ydynt yn meddu un llais yn nghynghorau y deyrnas, er eu bod yn cael eu trethu fel ereill at gynnaliaeth y llywodraeth.

Llofruddiaeth y Llywydd Lincoln.—Prin yr oedd y gorfoledd wedi dyfod yn gyffredin o herwydd buddugoliaethau'r gogledd, pan ddaeth y newydd galarus fod y Llywydd Lincoln wedi marw. Saethwyd ef trwy ei ben yn Chwareudy Ford, yn Washington, ychydig cyn un ar ddeg o'r gloch dydd Gwener y Groglith, y 14eg o'r mis diweddaf, a bu farw oddeutu hanner awr wedi saith o'r gloch boreu drannoeth. Cafodd y llofrudd dderbyniad i fox y Llywydd ar yr esgus o fod yn ddygiedydd bryslythyrau oddiwrth y Cadfridog Grant, a saethodd ef o'r tu ol gyda phistol cyffredin. Neidiodd o'r box ar yr esgynlawr, gan ysgwyd dagr, a gwaeddi *Sic semper tyrannis*, "Fel hyn y gwneir bob amser i orthrymwyr." Yna diangodd ymaith cyn bod gan neb ddigon o bresennoldeb meddwl i'w ddilyn ef. O ddeutu yr un amser, gwnaed ymgais i lofruddio Mr. Seward gan ddyn yr hwn ni lwyddodd i gyflawni ei amcan llofruddiog, a'r hwn yn fuan a ddygwyd i'r ddalfa. Mae Wilkes Booth, llofrudd y Llywydd Lincoln, wedi dyfod yntau i ddiwedd anamserol. Saethwyd ef trwy ei ben gan un or swyddogion a anfonasid i'w ddal. Mae amryw o'i cynghreirwyr llofruddiog mewn dalfa.

Galar mawr a digofaint sydd yn mhob rhan o'r gogledd, o herwydd marwolaeth Mr. Lincoln Dangoswyd cydymdeimlad dwys â'r Americaniaid, ar yr amgylchiad trwy holl wledydd Ewrop, ac yn Lloegr yn enwedig. Y mae yr is lywydd, Mr. Andrew Johnson, yn ol trefn y wlad, wedi esgyn i'r gadair Lywyddol. Mae gweddillion y Llywydd Lincoln yn cael eu hebrwng o ddinas i ddinas, i'w gorphwysfa yn Illinois.

Barna y newyddiaduron fod gorchfygiad ac ymostyngiad byddin Lee yn sicr o fod yn ddinystr i achos y Cynghrair Caethwasiol, a hyderir fod arweinyddion y Gwrthryfelwyr yn meddu digon o ddoethineb a dyngarwch i roddi terfyn ar y rhyfel, gan nad oes un tebygolrwydd y llwyddant i gyrhaedd eu hamcan.

Fe gychwynodd General Sherman gadoediad gyda Johnston i gychwyn ymdrafodaeth i roddi maddeuant i'r holl fyddinoedd gwrthryfelgar. Modd bynag, dangosodd y Llywodraeth ei hanghymmeradwyaeth o ymddygiad Sherman, a gorchymynodd i'r rhyfel gael ei ail ddechreu yn ddioed. Cyrhaeddodd Grant i Raleigh, terfynodd y cadoediad, a chymmerodd lywyddiaeth y symmudiad yn erbyn Johnston.

Bu Farw—

Mawrth 10, yn Nolgareg, yn 65 oed, Elizabeth Enoch, anwyl briod Mr. John Enoch, a chwaer i'r diweddar Barch. J. Jones, Aberdar, wedi dyoddef hir a thrwm gystudd. Bu yn ddidramgwydd ac yn ddiniwed tuag at bawb ar hyd ei hoes, a thros ddeugain mlynedd yn aelod ffyddlawn o'r eglwys yn Nghapelyfadfa. Ei phrofiad yn ei chystudd oedd nad oes yr un cysuron i'w cymharu a'r eiddo crefydd yn nhrallodion a chyfnewidiau'r byd presenol. Dydd ei hangladd yn y tŷ darllenodd a gweddiodd y Parch. T. Thomas, ac yn Mhantydefaid pregethodd yr ysgrifenydd, yn ol ei chais, oddiwrth 2 Cor. xii. 9, 10, i dyrfa luosog. Ymgysured ei phriod a'i phlant galarus yn y meddwl mai Duw yn ei gariad a'i cymmerodd hi ato ei hun; ei bod yn gorphwys yn yr Arglwydd, a'i gweithredoedd yn ei chanlyn. W. T.

Mawrth 29, Evan, unig blentyn Evan a Catharine Evans, Trecynon, Aberdar. Ychydig amser sydd (gwel YMOFYNYDD Mawrth) er pan y claddasant un bach o'r blaen. Nerth a gaffont, i edrych i fyny ato Ef yr hwn sydd yn alluog i sychu ymaith ddagrau galar, ae i ymddiddanu â'r diddanwch sydd o Dduw.

Mawrth 31, John D. Morgan, 7, Mount Pleasant-street, Aberdar, yn 71 mlwydd oed. Yr oedd yr hen wr yn aelod yn yr Hen-dy-cwrdd, ac yr oedd yn dwyn cryn sel gyda'r achos. Bu yn ffyddlawn iawn i ddosparthu *cards* darlith y Parch. T. Thomas ar "Lenyddiaeth," ac yr oedd yn edrych yn y blaen yn awyddus at yr amser y cawsai ei chlywed; ond torwyd ef i lawr cyn yr amser y cawsai y fraint Caffed ei blant nerth i ddywedyd, 'Ewyllys yr Arglwydd a wneler.'

Ebrill 1, Richard, ail fab John Jones, *Chemist and Druggist*, Aberdar, yn 19 oed. Claddwyd ef yn y *cemetery* ddydd Mawrth, y Parch Mr. George, gweinidog y capel Seisnig, yn gwasanaethu ar yr achlysur.

Ebrill 7, Margaret, gwraig David Jones, Heol-y-felin, Aberdar, a merch y diweddar E. R. Jenkin, yn 33 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod er ys blynyddau yn yr Hen-dŷ-cwrdd. Perchid hi gan bawb a'i hadwaenai, ac y mae wedi gadael beblaw ei gwr a'i mab bach, gyfoeth helaeth o gyfeillion a pherthynasau i alaru ar ei hol.

Ebrill 7, yng Nghastellnedd, o'r frech wen, yn 23 oed, Evan, mab Evan a Mary Thomas, Blaencathol, ger Llwynhydowen. Dranoeth dugwyd ei gorff drosodd i'w gladdu ym mynwent y Llwyn. Cyrhaeddwyd gorsaf Pencader tuag 8 o'r gloch yr hwyr, a chafwyd yno dyrfa luosog o'i hen gymmydogion a'i gyfeillion wedi dyfod i'w gwrdd am y tro olaf ar y ddaear. Yna cychwynwyd yn araf wrth oleu'r lloer tua thy ei hir gartref, a chyrhaeddwyd y Llwyn yn fuan wedi deg o'r gloch. Yr oedd teimlad dwys yn meddiannu'r dorf. Cydymdeimlid a'i rieni, ei frodyr a'i chwiorydd yn eu trallod, a hiraethid yn fawr ar ol dyn ieuainc mor serchog, dichlynaidd, craffus, ac anwyl gan bawb. Yr oedd y wybren uwchben yn ddigwmwl, a'r llawn lloer yn llewyrchu pan y safai'r dorf ar lan y bedd i weled rhoddi 'pridd i'r pridd,' ac i wrando am obeithion y Cristion hyd yn oed ar lan yr anedd brudd ac unig hon Hir gofir yr olygfa gyffrous a galarus hon gan bawb oedd yn bresenol. Dymunwn fod i'r teulu trallodedig y fraint o fwrw ei holl ofalon ar yr Arglwydd. Gweinodd gweinidog y lle ar yr achlysur.

Ebrill 23ain, yn 42 oed, canodd Mary Rees, o Gwmaman, Aberdar, yn iach i'r fuchedd bresenol wedi dioddef cystudd trwm (darfodedigaeth) am rai misoedd Yr oedd pob argoelion yn profi fod dydd ei hymddatodiad yn cyflym agoshau am gryn dipyn o amser cyn iddi gau ei llygaid yn yr angeu. Gadawodd saith o blant i alaru ar ei hol, dau o'r cyfryw sydd yn America yn bresenol; ond ni a obeithiwn fod eu colled hwy yn enill tragwyddol iddi hi. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r menywod mwyaf onest a llafurus yn ei hardal. Y Mercher canlynol daeth tyrfa luosog dros ben, cynwysedig o lawer o berthynasau, a llawer mwy o gyfeillion, ynghyd i hebrwng ei gweddillion i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn. Cyn ei gosod yn y bedd, yn y *cemetery*, awd trwy y gwasanaeth angladdol arferol gan weinidog yr Hen-dŷ-cwrdd. W. J.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.